Deddf Elusennau 2006

Yr hyn mae angen i ymddiriedolwyr ei wybod

Cabinet Office
Office of the Third Sector

Cynnwys

A. Rhagair 4

B. Arweiniad i'r llyfryn 6

B1. Pam y llyfryn hwn? 7
B2. Cwmpas y llyfryn 7
B3. Pwy ysgrifennodd y llyfryn? 7
B4. Defnyddio'r llyfryn 7

C. Crynodeb i ymddiriedolwyr elusennau llai 8

C1. Cyflwyniad 9
C2. Gweinyddu effeithiol 9
C3. Datblygu a thyfu 9
C4. Magu hyder cyhoeddus 9
C5. Meysydd annelwig 9
C6. Pan fydd pethau'n mynd o'i le 9

D. Y newidiadau mawr i'ch elusen 10

D1. Beth yw elusen? Dibenion elusennol a budd cyhoeddus 11
D2. Cofrestru 12
D3. Archwiliad, cyfrifon a datganiadau blynyddol 13
D4. Y Sefydliad Corfforedig Elusennol (SCE) – strwythur newydd i elusennau 15

E. Llai o fiwrocratiaeth 18

E1. Newid eich dibenion 19
E2. Addasu eich dogfen lywodraethu 19

F. Beth sydd wedi newid i'r ymddiriedolwr unigol? 22

F1. Ai rôl wirfoddol sydd gan yr ymddiriedolwr o hyd? 23
F2. Atebolrwydd yr ymddiriedolwr 23

G. Beth gall y Comisiwn ei wneud drosoch chi? 26

G1. Datrys problemau a gweinyddiaeth well 27
G2. Amddiffyn elusennau 28
G3. Pwerau ehangach wrth gynnal ymchwiliadau statudol 29

H. Amgylchiadau penodol 30

H1. Elusennau wedi'u heithrio ac wedi'u hesgusodi; beth sydd wedi newid? 31
H2. Elusennau bychain a throsglwyddo eiddo 32
H3. Cofrestru cyfuniadau 33
H4. Gwario o gronfeydd gwaddol 33
H5. Codi morgais ar eiddo elusennol ar gyfer benthyciad neu grant 34
H6. Codi Arian 35
H7. Y Tribiwnlys Elusennau 37

I. Ynghylch y Comisiwn 40

I1. Rôl y Comisiwn 41
I2. Statws a strwythur y Comisiwn 42

J. Geirfa 44

Atodiad
Ffynonellau gwybodaeth ddefnyddiol bellach 48

A. Rhagair

Croeso i'n harweiniad hanfodol, sy'n crynhoi'r hyn mae angen i ymddiriedolwyr ei wybod am Ddeddf Elusennau newydd 2006.

Bu elusennau eu hunain yn bartneriaid canolog wrth lunio Deddf Elusennau 2006 – o'r awgrymiadau cychwynnol, hyd at yr adolygiad yn 2001, i gamau olaf y drafodaeth seneddol. Y canlyniad yw cyfres o newidiadau sy'n anelu at wneud bywyd yn haws i ymddiriedolwyr, moderneiddio'r diffiniad o elusen, a rhoi amddiffynfeydd newydd i gynnal ymddiriedaeth y cyhoedd yn y sector elusennol.

Yn gyntaf, anela'r Ddeddf at roi mwy o hyblygrwydd a llai o fiwrocratiaeth i ymddiriedolwyr – yn arbennig elusennau llai. Cynigia ffyrdd newydd, haws i elusennau wneud newidiadau i'w dibenion, eu strwythurau a'u gweinyddiaeth. Mae darpariaethau newydd ar gyfer trosglwyddo asedau, dirwyn i ben, newid amcanion ac uno. Cyn hyn, bu'n rhaid i elusennau a oedd eisiau'r manteision sy'n cyd-fynd â bod yn gorfforedig wynebu dwy gyfres o reoliadau, fel elusen ac fel cwmni. Erbyn hyn, mae strwythur cyfreithiol newydd yn benodol ar gyfer elusennau – y Sefydliad Corfforedig Elusennol (SCE).

Yn ail, mae'r Ddeddf yn moderneiddio'r diffiniad o 'ddibenion elusennol', gan ei ddiweddaru er mwyn adlewyrchu sut mae elusen wedi esblygu a datblygu dros flynyddoedd lawer. Mae pob diben a gydnabuwyd fel rhai elusennol cyn y Ddeddf yn cael eu cwmpasu gan y diffiniad newydd. Mae'r Ddeddf yn sicrhau bod y prawf 'o fudd i'r cyhoedd' yn parhau'n gonglfaen elusen, gan danlinellu'r gofyniad i bob elusen fod o fudd cyhoeddus. Mae'n mynd i'r afael hefyd â'r angen i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd am y ffyrdd y mae elusennau yn cynnig budd cyhoeddus, ac yn rhoi cyfrifoldeb ar y Comisiwn Elusennau i sicrhau bod hyn yn digwydd.

Yn drydydd, mae'r Ddeddf yn amddiffyn ymddiriedaeth gyhoeddus. Mae hyder mewn elusen yn allweddol, ac nid yw'n rhywbeth y gallwn ni ei gymryd yn ganiataol. Mae'r Ddeddf yn cryfhau atebolrwydd a thryloywder y sector elusennol. Bydd yn galluogi 13,000 elusen fwy o faint, a oedd cyn hyn wedi'u hesgusodi neu eu heithrio, i ymuno â'r gofrestr elusennau. Mae'n sicrhau, drwy hynny, bod yr elusennau hyn yn cael eu hystyried yn yr un ffordd ag elusennau eraill.

Mae'r Comisiwn ei hun wedi cael amcanion a phwerau cyfoes i ategu ei rôl fel rheoleiddiwr modern ac effeithiol. Bydd yn rhatach ac yn haws i elusennau herio penderfyniadau'r Comisiwn drwy'r Tribiwnlys Elusennau. Yn ogystal â gwella atebolrwydd y Comisiwn, bydd hyn yn helpu'r gyfraith elusennau i ddatblygu'n fwy hyblyg ymhen amser.

Gobeithiwn fod yr arweiniad hwn yn esbonio mewn ffordd eglur y newidiadau a wneir gan Ddeddf Elusennau 2006 a'i fod yn rhoi'r wybodaeth y mae ei hangen ar ymddiriedolwyr er mwyn nodi'r cyfleoedd sydd ar gael nawr, ac yn y dyfodol.

ED MILIBAND AS
Gweinidog y Trydydd Sector



Y FONESIG SUZI LEATHER
Cadeirydd, Comisiwn Elusennau

B. Arweiniad i'r llyfryn

B1. Pam y llyfryn hwn?

Pasiwyd Deddf Elusennau 2006 – a elwir yn syml 'y Ddeddf' yn y llyfryn hwn – gan y Senedd yn Nhachwedd 2006 ond ni ddaeth i rym ar unwaith. Daeth rhai rhannau o'r Ddeddf i rym ar 27 Chwefror 2007. Bydd y rhan fwyaf o'r gweddill yn dod i rym yn gynnar yn 2008. Cynigia'r llyfryn hwn drosolwg o'r Ddeddf i ymddiriedolwyr, ac mae wedi'i anelu'n bennaf at y rheiny sydd ag elusennau ag incwm o lai na £500,000 y flwyddyn. Fodd bynnag, gall fod o ddiddordeb hefyd i ymddiriedolwyr, gweithwyr, gwirfoddolwyr ac ymgynghorwyr pob elusen.

B2. Cwmpas y llyfryn

Mae'r llyfryn yn trafod ystod eang o bynciau am elusennau yng Nghymru a Lloegr, eu hymddiriedolwyr a'r Comisiwn Elusennau. Mae ein hesboniadau byr yn gywir, ond eu diben yw tynnu sylw at y prif newidiadau a gyflwynir gan y Ddeddf a'ch helpu chi i ddarganfod pa rai fydd neu a allai effeithio ar eich elusen chi. Mae'r Ddeddf yn ymdrin â materion cyfreithiol cymhleth. Er mwyn bod yn sicr am unrhyw gamau nesaf y gallai fod angen i chi eu cymryd a phryd i'w cymryd, ceisiwch arweiniad pellach.

B3. Pwy ysgrifennodd y llyfryn?

Daw'r llyfryn o Swyddfa'r Trydydd Sector a'r Comisiwn Elusennau.

Mae Swyddfa'r Trydydd Sector yn rhan o Swyddfa'r Cabinet. Mae'n hyrwyddo ac yn datblygu rôl y trydydd sector, ac ymhlith ei dyletswyddau mae diwygio'r gyfraith elusennau. Y Comisiwn Elusennau (a elwir yn syml yn 'y Comisiwn' yn y llyfryn hwn) yw rheoleiddiwr annibynnol elusennau yng Nghymru a Lloegr. Mae nodau'r Comisiwn yn cynnwys gwella effeithiolrwydd elusennau a magu hyder ac ymddiriedaeth gyhoeddus mewn elusennau.

B4. Defnyddio'r llyfryn

I gael blas ar y prif newidiadau, trowch i Adran C. Mae Adrannau D i I yn rhoi rhagor o fanylion. O dan bob pennawd, rydym yn sôn am newidiadau arwyddocaol a gyflwynwyd gan y Ddeddf a fydd o ddiddordeb i chi fel ymddiriedolwr. Bydd darpariaethau unigol y Ddeddf yn dod i rym ar adegau gwahanol. Mae rhai eisoes wedi cychwyn, tra bod angen ymgynghori ar eraill, gwneud rheoliadau a chyhoeddi arweiniad. Yn gyffredinol gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am y camau nesaf ar ddiwedd pob adran o'r llyfryn, yn ogystal â manylion pa arweiniad pellach sydd ar gael ar hyn o bryd o wefan y Comisiwn. Bydd yr wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd hefyd yn cael ei rhoi ar wefan Swyddfa'r Trydydd Sector a'r Comisiwn (gweler yr Atodiad am fanylion). Bydd fersiwn ar-lein o'r llyfryn hwn yn cael ei diweddaru o bryd i'w gilydd, a bydd ar gael ar y ddwy wefan hyn.

Mae'r penawdau o fewn yr adrannau yn tynnu eich sylw at y meysydd cyffredinol y bydd y Ddeddf yn effeithio arnynt. Yn gyffredinol rydym yn rhoi crynodeb byr o beth sydd wedi newid ('Yr ateb byr' neu 'Yn gryno') ac wedyn yn rhoi mwy o gefndir ('Rhagor o fanylion').

Rydym wedi trefnu'r llyfryn i gyd-fynd â'r ffordd rydych chi'n gweithio, felly mae'r newidiadau sydd fwyaf tebygol o effeithio ar eich gwaith pob dydd yn agos at y dechrau. Mewn ambell fan ceir geirfa dechnegol na fydd efallai yn gyfarwydd i bob darllenydd. Esbonnir y rhain yn yr eirfa yn adran J.

C. Crynodeb i ymddiriedolwyr elusennau llai

Efallai fod rhai o ddarpariaethau'r Ddeddf yn ymddangos yn gymharol fach, ond gyda'i gilydd byddant yn cael effaith gadarnhaol ar waith ac effeithlonrwydd eich elusen. Byddant yn berthnasol beth bynnag yw math a maint eich elusen, ac yn helpu sector amrywiol i ffynnu. Wrth ysgrifennu'r arweiniad hwn, ystyriodd Swyddfa'r Trydydd Sector a'r Comisiwn eich anghenion yn ofalus iawn.

C. Crynodeb i ymddiriedolwyr elusennau llai

Bydd y llyfryn hwn yn eich arwain drwy'r hyn sydd wedi newid mewn meysydd allweddol fel diffiniadau, trothwyon ariannol a dyletswyddau unigol yr ymddiriedolwyr.

C1. Cyflwyniad

Elusennau bychain yw'r rhan fwyaf o'r sector. Dylai llawer o ddarpariaethau'r Ddeddf fod o fudd i'ch gwaith a'ch effeithlonrwydd chi. Isod, rhestrir rhai manteision allweddol i chi, a cheir canllawiau ar ble i ddarllen rhagor.

C2. Gweinyddu effeithiol

Nid oes unrhyw un yn hoffi biwrocratiaeth. Ar gyfer rhai meysydd penodol, mae'r angen am ganiatâd gan y Comisiwn wedi'i ddileu (gweler yn benodol adrannau E ac F):

- Dim ond os yw'ch incwm blynyddol yn fwy na £5,000 y bydd angen i chi gofrestru (gweler D2).
- Bydd elusennau anghorfforedig llai yn gallu gweithredu heb ganiatâd y Comisiwn ar adegau (er enghraifft newid eich dibenion neu drosglwyddo asedau).
- Bydd yn haws newid eich dogfennau llywodraethu.
- Gall ymddiriedolwyr weithredu gyda llai o fiwrocratiaeth (ac efallai llai o ofid) nag yn y gorffennol. Er enghraifft, edrychwch ar beth sydd wedi newid yng nghyd-destun yswiriant atebolrwydd ac indemniad personol, tâl neu godi arian.

C3. Datblygu a thyfu

O ran datblygiad eich elusen, galluoga'r Ddeddf chi i addasu'n gyflymach i'r amgylchiadau economaidd a chymdeithasol o'ch amgylch. Yn benodol, cyflwyna:

- bwerau newydd i elusennau anghorfforedig drosglwyddo eiddo, gwario o gronfeydd gwaddol neu forgeisio eu tir;
- ffordd haws o drosglwyddo ewyllysiau a rhoddion pan fydd elusennau yn uno (gweler H3); a
- strwythur cyfreithiol newydd ar gyfer elusennau corfforedig ag atebolrwydd cyfyngedig, er mwyn osgoi rheoleiddio deuol gan y Comisiwn a Thŷ'r Cwmnïau (gweler D4).

C4. Magu hyder cyhoeddus

Ysbryd y Ddeddf yw bod angen i elusennau fod yn eglur sut maen nhw o fudd i'r cyhoedd. Mae llawer o'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer elusennau wedi'i ddatblygu gan y llysoedd dros nifer o ganrifoedd. Mae'r Ddeddf yn cynnig mwy o eglurder a phwyslais cryfach ar gyflwyno budd cyhoeddus (gweler D1).

C5. Meysydd annelwig

Gall y Comisiwn fod o gymorth wrth egluro rhai meysydd annelwig a allai fod yn rhwystr i chi. Gall gynnig cyngor ac arweiniad cyffredinol ac mae ganddo hawliau newydd i roi arweiniad ar eiddo a rhoddion sydd wedi'u cyfrannu neu lywodraethu ar aelodaeth elusen (gweler G1).

C6. Pan fydd pethau'n mynd o'i le

O dro i dro, mae angen i'r Comisiwn agor ymchwiliad i weithgareddau elusen. Pan fydd problemau difrifol, mae hawliau'r Comisiwn wedi'u cryfhau (gweler G2 a G3). Cyflwyna'r Ddeddf Dribiwnlys Elusennau hefyd i wrando apeliadau yn erbyn penderfyniadau'r Comisiwn (gweler H7).

D. Y newidiadau mawr i'ch elusen

Bwriad y Ddeddf yw eich helpu chi a'r Comisiwn ymdrin â materion syml yn gyflymach ac yn fwy effeithlon. Rydym yn ymwybodol o'r angen i amddiffyn elusennau – yn arbennig sefydliadau llai – rhag gormod o fiwrocratiaeth. Rydym am iddynt fod yn rhydd i ddefnyddio eu hadnoddau dros eu buddiolwyr ac i ddatblygu a thyfu'n hawdd. Cyflwyna'r Ddeddf strwythur cyfreithiol newydd i elusennau, ac mae'n galw ar elusennau i fod yn eglur sut maen nhw o fudd i'r cyhoedd.

D1. Beth yw elusen? Dibenion elusennol a budd cyhoeddus

Yr ateb byr

Diffinia'r Ddeddf elusen fel 'corff neu ymddiriedolaeth sydd at ddiben elusennol sy'n rhoi budd i'r cyhoedd'. Rhestra 13 o ddibenion elusennol, a rhaid bod gan unrhyw elusen ddibenion sy'n dod o fewn y rhestr honno.

Mae dibenion (neu amcanion) elusen fel arfer wedi'u nodi yn ei dogfen lywodraethu ei hun. Cyn y Ddeddf, roedd pedwar math o ddibenion elusennol (a alwyd yn 'benawdau'). Y rhain oedd lleddfu tlodi; datblygu addysg; datblygu crefydd; a dibenion eraill er budd y gymuned. Cyn y Ddeddf, tybiwyd bod elusennau a oedd yn lleddfu tlodi neu'n datblygu addysg neu grefydd o fudd i'r cyhoedd. Mae'r Ddeddf yn cael gwared ar y rhagdybiaeth honno a bydd rhaid i bob elusen ddangos sut mae ei dibenion o fudd i'r cyhoedd.

Rhagor o fanylion

Y sefyllfa gyfreithiol: Mae'r ffordd y mae'r gyfraith yn deall 'dibenion elusennol' wedi datblygu dros nifer o ganrifoedd. Er enghraifft, disgrifir dibenion elusennol yn rhagymadrodd y Ddeddf Defnyddiau Elusennol 1601. Mae dibenion a ystyrir yn elusennol heddiw yn seiliedig naill ai ar y rhai gwreiddiol hynny neu ar ddibenion eraill y sefydlwyd eisoes gan y llysoedd i fod yn debyg iddynt. Mae'r ystod o elusennau sy'n bodoli erbyn hyn yn amlwg wedi datblygu tipyn er yr ail ganrif ar bymtheg. Drwy restru'r dibenion sefydledig hyn, mae'r Ddeddf yn diweddaru cwmpas nodau elusennol ar gyfer cymdeithas fodern ac yn rhoi syniad llawer eglurach o'r hyn a ystyrir 'yn rhywbeth dros elusen'.

Dibenion elusennol: Mae gan y rhestr 12 pennawd penodol ac un pennawd cyffredinol. Mae'r pennawd cyffredinol olaf hwn yn cadw popeth sydd ar hyn o bryd yn elusennol ond nad yw efallai yn dod o dan yr un o'r 12 pennawd penodol o fewn y cwmpas elusennol. Yn y ffordd yna, mae'r 13 pennawd i gyd yn cwmpasu popeth sy'n elusennol. Dyma'r rhestr:

- atal neu leddfu tlodi;
- hyrwyddo addysg;
- hyrwyddo crefydd;
- hyrwyddo iechyd neu achub bywydau;
- hyrwyddo dinasyddiaeth neu ddatblygiad cymunedol;
- hyrwyddo celfyddydau, diwylliant, treftadaeth neu wyddoniaeth;
- hyrwyddo chwaraeon amatur;
- hyrwyddo hawliau dynol, datrys gwrthdaro neu gymodi, neu hybu cytgord crefyddol neu hiliol neu gydraddoldeb ac amrywiaeth;
- hyrwyddo amddiffyn neu wella'r amgylchedd;
- rhyddhau'r rheiny sydd mewn angen o ganlyniad i ieuenctid, oed, afiechyd, anabledd, caledi ariannol neu unrhyw anfantais arall;
- hyrwyddo lles anifeiliaid;
- hybu effeithlonrwydd lluoedd arfog y Goron, neu effeithlonrwydd yr heddlu, gwasanaethau tân ac achub neu'r ambiwlans; a
- dibenion eraill a gydnabyddir ar hyn o bryd yn elusennol neu sydd yn ysbryd unrhyw ddibenion sy'n cael eu cydnabod fel rhai elusennol ar hyn o bryd.

Mae'r pennawd olaf hwn yn cwmpasu llawer o ddibenion elusennol sydd eisoes wedi'u sefydlu, er enghraifft rhyddhad o ddiweithdra, hyrwyddo lles moesol ac ysbrydol, adsefydlu troseddwyr, ac eraill. Mae'n cwmpasu hefyd unrhyw ddibenion a allai gael eu cydnabod yn rhai elusennol yn y dyfodol. Mae elusennau sy'n dod o dan y drydedd bennod ar ddeg yn cael eu trin yn yr un ffordd ag elusennau sy'n dod o dan y penawdau eraill o ran rheoleiddio neu dreth.

Y gofyniad er budd cyhoeddus: Rhaid bod gan bob elusen ddibenion sydd o fudd i'r cyhoedd. Atgyfnertha'r Ddeddf y gofyniad hwn drwy ei gwneud yn ofynnol i bob un – ac nid rhai yn unig – o'r sefydliadau ar y gofrestr elusennau allu profi hyn. Rhaid i bob elusen a fydd am gofrestru yn y dyfodol ddarparu tystiolaeth y bydd ei diben o fudd cyhoeddus. Gellir gofyn hefyd i rai elusennau presennol ddangos sut maent yn bodloni'r prawf hwn.

Datblygu cyfraith budd cyhoeddus: Nid yw ystyr 'budd cyhoeddus' bob amser yn syml. Bydd rhaid i'r Comisiwn asesu, er enghraifft, beth yw'r buddion, pwy fydd yn elwa ac a fydd hynny'n ddigonol o ystyried y dibenion y sefydlwyd yr elusen i'w cyflawni. Yn yr un modd â'r gyfraith ar ddibenion elusennol, bydd y gyfraith ar fudd cyhoeddus yn parhau i esblygu a datblygu. Bydd yn newid mewn ymateb i'r cyd-destun cymdeithasol ac economaidd y mae elusennau yn gweithio ynddo ac mewn ymateb i benderfyniadau gan y Comisiwn, y Tribiwnlys Elusennau arfaethedig (gweler H7) a'r llysoedd.

Rôl y Comisiwn: Un o amcanion newydd y Comisiwn yw hyrwyddo dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o'r gofyniad budd cyhoeddus (gweler I1). I helpu i fodloni'r amcan hwn, mae'r Comisiwn eisoes wedi dechrau ymgynghori ac wedi cyhoeddi arweiniad drafft ar ei wefan, yn pennu ei agwedd arfaethedig. Ar ôl ymgynghori, bydd y Comisiwn yn gwirio faint o fudd cyhoeddus sy'n perthyn i elusennau presennol.

Rôl ymddiriedolwyr: Nid oes gorfodaeth gyfreithiol arnoch i ddilyn yr arweiniad ond rhaid i chi ei ystyried pan fydd yn berthnasol i'ch elusen.

Bydd y gofyniad budd cyhoeddus a'r darpariaethau ar gyfer dibenion elusennol yn dod i rym yn gynnar yn 2008.

Gwybodaeth bellach ar gael o wefan y Comisiwn:

- *Ymgynghoriad ar arweiniad budd cyhoeddus drafft*
- *Sylwebaeth ar y disgrifiadau o ddibenion elusennol yn Neddf Elusennau 2006*

D2. Cofrestru

Yn gryno

Yn gyffredinol, dim ond elusennau gydag incwm blynyddol o fwy na £5,000 sy'n gorfod cofrestru gyda'r Comisiwn. Mae'r trothwy hwn wedi codi o'i lefel flaenorol, sef £1,000. Bydd y gofynion cofrestru ar gyfer elusennau sydd 'wedi'u hesgusodi' ac 'wedi'u heithrio' hefyd yn newid ac fe'u pennir mewn rhan arall o'r llyfryn hwn (gweler H1).

Rhagor o fanylion

Golyga'r cynnydd i'r trothwy cofrestru nad oes rhaid i elusennau gydag incwm blynyddol o £5,000 neu lai gofrestru. Arferai fod gorfodaeth ar elusen i gofrestru (beth bynnag oedd lefel ei hincwm) os oedd yn meddu ar waddol parhaol, neu dir a ddefnyddiwyd neu a feddianwyd. Mae hynny wedi darfod erbyn

hyn. Ond mae rhaid i bob elusen sy'n ceisio am statws Sefydliad Corfforedig Elusennol (gweler D4) gofrestru gyda'r Comisiwn, beth bynnag ei hincwm.

Diben y newid: Bydd y Ddeddf yn arbed amser (ac mewn llawer o achosion, arian) i sawl mil o elusennau bychain drwy eu rhyddhau rhag dyletswyddau cofrestru a chynnal eu manylion cofrestredig. Gan hynny, bydd elusennau llai yn rhydd rhag nifer o rwymedigaethau cydymffurfio, wrth barhau i fanteisio ar statws elusennol.

Daeth y ddarpariaeth hon i rym ar 23 Ebrill 2007.

Cofrestru gwirfoddol: Nid yw'r Comisiwn fel arfer yn cofrestru unrhyw elusen sydd o dan y trothwy ar gyfer cofrestru gorfodol. Yn y pen draw, o dan newidiadau y Ddeddf, bydd gan yr elusennau bychain hyn yr hawl i gofrestru'n wirfoddol, ond nid yw'r hawl hon wedi dod i rym eto. Fodd bynnag, mae'r Comisiwn yn cydnabod bod angen penodol gan rai elusennau i fod yn gofrestredig felly yn y cyfamser fe fydd yn ystyried pob achos yn unigol.

Mae'r hawl i gofrestru gwirfoddol wedi'i gohirio er mwyn i'r Comisiwn ymdrin â gwaith arall sy'n codi o ganlyniad i'r Ddeddf. Nid ydym yn disgwyl iddi ddod yn weithredol tan ar ôl i'r Comisiwn ymdrin â'r newidiadau i gofrestru sy'n effeithio ar elusennau sydd wedi'u heithrio ac wedi'u hesgusodi, ac nid yw'n debygol o ddigwydd cyn 2009.

Dadgofrestru: Gall elusennau cofrestredig presennol ag incwm blynyddol o dan y trothwy £5,000 ofyn i gael eu tynnu oddi ar y gofrestr, ond byddant yn parhau i fod yn elusennau a bydd rhaid iddynt lynu wrth y gyfraith elusennau. Bydd y Comisiwn yn llunio arweiniad ar hyn cyn hir.

Rhagor o wybodaeth ar wefan y Comisiwn:

- *Cofrestru fel elusen*
- *Tynnu sefydliadau oddi ar y gofrestr*

D3. Archwiliad, cyfrifon a datganiadau blynyddol

Yn gryno

Bydd y trothwyon ar gyfer gwneud archwiliad ac astudio cyfrifon elusen yn ofynnol yn cael eu codi'n gyffredinol. Bydd trothwyon tebyg ar gyfer elusennau sy'n gwmnïau a'r rheiny nad ydynt. Ni fydd angen archwiliad proffesiynol o gyfrifon y mwyafrif o elusennau sydd ag incwm llai na £500,000. Mae trothwyon archwilio eraill yn dibynnu ar lefelau asedau neu incwm blynyddol neu'r ddau, ar a ydy'r elusen yn gwmni ai peidio, ac (ar gyfer grwpiau) ar lefel incwm y grŵp.

Fel y digwyddai cyn y Ddeddf, rhaid i ymddiriedolwyr pob elusen gofrestredig gydag incwm blynyddol o fwy na £10,000 gyflwyno datganiad blynyddol, gyda chyfrifon ac adroddiad blynyddol yr elusen, i'r Comisiwn Elusennau. Mae'r Ddeddf wedi dileu gwariant fel maen prawf ar gyfer penderfynu a oes angen cyflwyno datganiad blynyddol, a bydd yn newid y drosedd o beidio â chyflwyno datganiad.

Rhagor o fanylion: elusennau nad ydynt yn gwmnïau

Ar gyfer blynyddoedd ariannol yn cychwyn ar 27 Chwefror 2007 neu wedi hynny: Rhaid i elusen nad yw'n gwmni gynnal archwiliad proffesiynol o'i chyfrifon os yw'r trothwyon canlynol yn berthnasol:

- mae ei hincwm blynyddol gros yn uwch na £500,000; neu
- mae ganddi incwm blynyddol o fwy na £100,000 ac asedau sy'n werth mwy na £2.8 miliwn;

Neu, er gwaethaf y trothwyon hyn, os:

- yw ei dogfen lywodraethu yn nodi bod rhaid iddi gael archwiliad proffesiynol; neu
- mae'r Comisiwn yn gorchymyn i gyfrifon yr elusen gael eu harchwilio'n broffesiynol.

Y sefyllfa gyffredinol yw mai dim ond archwilwyr sydd wedi cofrestru ac sy'n cael eu rheoli gan gorff goruchwylio cydnabyddedig (ac felly'n 'broffesiynol') a all gynnal archwiliad o gyfrifon elusen.

Ar gyfer elusennau anghorfforedig nad yw'n ofynnol iddynt gael archwiliad proffesiynol:

- Os yw incwm blynyddol yr elusen yn fwy na £10,000, mae angen archwilio ei chyfrifon yn annibynnol.
- Os yw'r incwm blynyddol yn fwy na £250,000, yna rhaid i'r archwiliwr annibynnol fod yn aelod o gorff proffesiynol a enwir yn y Ddeddf.
- Rhaid i elusennau gydag incwm blynyddol o £10,000 neu lai baratoi cyfrifon o hyd a'u cyflwyno ar gais.

Rhagor o fanylion: elusennau sy'n gwmnïau

Beth sy'n digwydd i gwmnïau elusennol â lefelau asedau neu incwm islaw'r trothwyon archwilio?

- Rhaid i gwmni elusennol ag incwm blynyddol rhwng £90,000 a £500,000 ac asedau sy'n werth £2.8 miliwn neu lai gael adroddiad cyfrifydd.
- Rhaid i gwmni elusennol ag incwm blynyddol o £90,000 neu lai gael naill ai archwiliad proffesiynol neu adroddiad cyfrifydd, oni bai bod ei asedau'n werth mwy na £2.8 miliwn.

Beth yw trothwy'r archwilio ar gyfer cwmnïau elusennol?

- Rhaid i gwmni elusennol ag incwm blynyddol o fwy na £500,000 neu asedau sy'n werth mwy na £2.8 miliwn gael archwiliad proffesiynol.

Mae'r darpariaethau wedi dod i rym ar gyfer blynyddoedd ariannol yn cychwyn ar 27 Chwefror 2007 neu wedi hynny. Bydd newidiadau pellach yn creu fframwaith archwilio unigol ar gyfer pob elusen, p'un a ydynt yn gwmnïau ai peidio. Disgwylir y newidiadau hyn yn hwyrach yn 2007 neu yn gynnar yn 2008.

Rhagor o fanylion: datganiadau blynyddol

Rhaid i bob elusen gofrestredig sy'n gorfod cyflwyno datganiad blynyddol i'r Comisiwn wneud hynny o fewn 10 mis ar ôl diwedd blwyddyn ariannol yr elusen. Cyn hyn, gellid dyfarnu ymddiriedolwyr elusennau o'r fath a oedd yn methu'n gyson â chyflwyno datganiad ariannol, adroddiadau blynyddol neu gyfrifon i'r Comisiwn yn euog o drosedd a'u dirwyo. Mae'r Ddeddf yn newid y diffiniad o'r drosedd fel ei bod yn berthnasol i unrhyw ymddiriedolwyr sy'n methu â chyflwyno un neu fwy o'r dogfennau hyn, p'un a yw'r methiant hwn yn gyson ai peidio, ac yn cynyddu'r gosb ar gyfer y drosedd honno. Ni fydd ymddiriedolwyr yn troseddu os gallant ddangos eu bod wedi cymryd pob cam posibl i fodloni'r terfyn amser.

Arferai fod trosedd debyg ar gyfer ymddiriedolwyr sy'n methu'n gyson â chydymffurfio â chais gan unrhyw berson am gopi o'r cyfrifon. Estynnwyd hon i gwmpasu ceisiadau am gopi o'r adroddiad blynyddol diweddaraf hefyd. Rhaid i elusennau gydag

incwm blynyddol o lai na £10,000 gydymffurfio â cheisiadau am gopïau o'u cyfrifon ond nid yw'n ofynnol iddynt gyflwyno datganiad blynyddol i'r Comisiwn na darparu adroddiad blynyddol.

Pryd fydd y darpariaethau yn dod i rym? Bydd y newidiadau i'r gosb am y drosedd o fethu â chyflwyno datganiad blynyddol, cyfrifon neu adroddiad blynyddol yn brydlon yn berthnasol i'r holl rai sy'n ddyledus ar 1 Ebrill 2008 neu ar ôl hynny. Bydd yn berthnasol hefyd o'r un dyddiad i ymddiriedolwyr a fydd yn methu â bodloni ceisiadau am gyfrifon a datganiadau blynyddol.

Rhagor o fanylion: cyfrifon grŵp gan riant (neu 'brif') elusen

Pan fydd elusen yn rhan o grŵp o sefydliadau, mae paratoi cyfrifon grŵp wedi'i dderbyn fel arfer da yn y sector. Fodd bynnag, nid yw wedi bod yn ofyniad cyfreithiol. Bydd y Ddeddf yn ei gwneud hi'n ofyniad cyfreithiol i bob rhiant elusen gyflwyno cyfrifon grŵp ar ei chyfer ei hun ac is-elusennau o dan ei rheolaeth, pan fydd incwm neu asedau'r grŵp ar y cyd uwchben trothwy penodol.

Bydd y darpariaethau hyn yn cael eu cyflwyno ar ôl ymgynghori â'r sector yn 2007 a disgwylir iddynt ddod i rym yn hwyrach yn 2007 neu'n gynnar yn 2008 am y blynyddoedd ariannol sy'n cychwyn wedi hynny. Mae angen rheoliadau pellach i bennu'n fanwl beth yw'r trothwyon pan fydd angen cyfrifon grŵp, beth fydd ynddynt a sut byddant yn cael eu harchwilio.

Chwythu'r chwiban

Ar hyn o bryd mae gan archwilwyr elusennau anghorfforedig ddyletswydd benodol i dynnu sylw'r Comisiwn at gamddefnyddio neu dorri'r gyfraith elusennau. Mae ganddynt amddiffyniad statudol eisoes yn erbyn achos cyfreithiol am dorri cyfrinachedd neu ddifenwi pan fyddant yn gwneud hynny. Mae'r Ddeddf newydd yn cydnabod y ddyletswydd honno ac yn estyn y ddyletswydd a'r amddiffyniad cysylltiedig i archwilwyr cyfrifon elusennau anghorfforedig a chwmnïau elusennol, yn ogystal ag i gyfrifwyr adrodd ac archwilwyr annibynnol cyfrifon elusennau.

Bydd y darpariaethau yn dod yn dod i rym yn hwyrach yn 2007, er bod y ddyletswydd a'r amddiffyniad mewn perthynas â chwythu'r chwiban yn berthnasol yn ôl-syllol i faterion sy'n codi cyn y dyddiad hwn.

Rhagor o wybodaeth ar wefan y Comisiwn:

- *Datganiad Blynyddol*
- *Datganiad Arfer a Argymhellir: cyfrifo ac adrodd gan elusennau*
- *Adrodd a chyfrifo gan elusennau: yr hanfodion*

D4. Y Sefydliad Corfforedig Elusennol (SCE) – strwythur newydd i elusennau

Yn gryno

Yr SCE fydd y strwythur cyfreithiol cyntaf i gael ei greu yn unswydd i fodloni anghenion elusennau ac a fydd ar gael i elusennau'n unig. Fel yn achos cwmni, bydd ganddo fanteision corfforaeth, sef creu 'personoliaeth gyfreithiol' ar gyfer yr elusen ac atebolrwydd cyfyngedig i ymddiriedolwyr. Fodd bynnag, ni fydd angen cofrestriad ar wahân â Thŷ'r Cwmnïau na rheolau yn unol â chyfraith cwmnïau ar wahân ar SCEau. Corff corfforaethol gyda chyfansoddiad fydd SCE, a bydd wedi'i gofrestru â'r Comisiwn, ac yn cael ei reoli ganddo.

Ni fydd SCE yn addas ar gyfer pob math o elusen, a dylai ymddiriedolwyr gael cyngor proffesiynol os ydynt yn ystyried dechrau elusen newydd fel SCE neu am newid elusen gyfredol i'r strwythur newydd.

Rhagor o fanylion

Pam mae angen yr SCE: Mae dau brif fath o strwythur elusen – corfforedig ac anghorfforedig – ond nid oes strwythur ar gyfer ymgorffori cyfreithiol yn benodol ar gyfer elusennau.

Ar hyn o bryd, rhaid i elusennau sydd am fanteision bod yn gorfforedig gofrestru fel cwmnïau. Mae baich ar gwmnïau elusennol i gofrestru gyda Thŷ'r Cwmnïau a'r Comisiwn ill dau ac adrodd wrthynt, a rhaid iddynt ddilyn gofynion y gyfraith elusennau a gofynion cyfraith cwmnïau. Bydd SCE yn helpu elusennau i gael mateision corfforaeth heb orfod mynd drwy gofrestru a rheoleiddio deuol.

Beth fydd manteision SCEau dros gwmnïau elusennol?

- **Cofrestru unwaith.** Rhaid i gwmni elusennol gofrestru gyda Thŷ'r Cwmnïau a'r Comisiwn. Gyda'r Comisiwn yn unig y bydd rhaid i SCE gofrestru.
- **Gofynion llai beichus wrth baratoi cyfrifon.** Bydd SCEau bychain yn gallu paratoi cyfrifon, derbynebau a thaliadau; bydd rhai mwy yn paratoi cyfrifon croniadau safonol y Ddeddf Elusennau. Rhaid i bob cwmni elusennol, beth bynnag ei faint, baratoi cyfrifon croniadau (mantolen, datganiad o weithgarwch ariannol a nodiadau) sy'n bodloni gofynion y gyfraith cwmnïau.
- **Gofynion cadw gwybodaeth llai beichus.** Dim ond o dan y Ddeddf Elusennau y bydd angen i SCEau baratoi adroddiad blynyddol. Rhaid i gwmnïau elusennol baratoi adroddiad i fodloni gofynion y Ddeddf Cwmnïau yn ogystal â'r Ddeddf Elusennau.
- **Dim ond un datganiad blynyddol.** Rhaid i gwmnïau elusennol baratoi datganiad blynyddol yn unol â'r gyfraith cwmnïau, ac mae'n rhaid i'r mwyafrif gyflwyno datganiad blynyddol ar wahân yn unol â'r gyfraith elusennau.
- **Gofynion ffeilio llai beichus.** At y Comisiwn yn unig y bydd yn rhaid i SCEau anfon cyfrifon/adroddiadau/datganiadau. Rhaid i gwmnïau elusennol eu hanfon at y Comisiwn a Thŷ'r Cwmnïau.
- **Gofynion llai yn ymwneud ag adrodd newidiadau cyfansoddiadol a llywodraethol.** Bydd llai o ofynion adrodd ar SCEau na chwmnïau elusennol, a bydd rhaid iddynt adrodd i'r Comisiwn yn unig, yn hytrach nag adrodd i'r Comisiwn a Thŷ'r Cwmnïau.
- **Costau is.** Nid yw'r Comisiwn, yn wahanol i Dŷ'r Cwmnïau, yn codi tâl am gofrestru na ffeilio gwybodaeth.
- **Ffurflenni cyfansoddiadol symlach a mwy hyblyg.** Gan na fydd SCEau yn rhannu fframwaith â chyrff masnachol, bydd yn bosibl creu dogfennau llywodraethu symlach a mwy hyblyg sy'n bodloni anghenion elusennau'n benodol.
- **Trefniadau uno symlach.** Nid yw'r rhain ar gael i gwmnïau elusennol.

Sut i ddod yn SCE: Dylai ymddiriedolwyr ystyried yn gyntaf a fyddai'r SCE yn darparu endid cyfreithiol priodol ar gyfer eu helusen. Bydd unrhyw un sydd am gychwyn elusen yn gallu gwneud defnydd o'r SCE. Rhaid i ymgeiswyr gofrestru copi o'u

cyfansoddiad arfaethedig ac unrhyw ddogfennau eraill y gallai'r Comisiwn ddymuno eu cael oddi wrthynt gyda'r Comisiwn. Mae'r Ddeddf hefyd yn hwyluso trosi elusen bresennol yn SCE. Gellir gwneud hyn drwy drosi cwmni elusennol presennol yn SCE neu drosglwyddo asedau elusen anghorfforedig bresennol i SCE. Ni all elusen sydd wedi'u hesgusodi fod yn SCE.

Pryd y gellid gwrthod statws SCE: Gall y Comisiwn wrthod ymgeisydd:

- os nad yw'r SCE yn cael ei sefydlu at ddibenion elusennol yn unig;
- os nad yw ei gyfansoddiad yn cydymffurfio fel arall â'r Ddeddf neu reoliadau a wnaed yn dilyn y Ddeddf; neu
- os yw enw arfaethedig y SCE yr un peth neu'n rhy debyg i enw elusen arall neu mae'n gamarweiniol neu'n sarhaus.

Beth mae angen ei wneud nesaf: Mae angen deddfwriaeth eilaidd o hyd ar gyfer fframwaith cyfreithiol newydd yr SCE ar ffurf rheoliadau i'w gwneud gan Weinidog Swyddfa'r Cabinet. Bydd y rheoliadau yn rhoi mwy o fanylion am sut bydd yr SCE yn cael eu sefydlu a'u gweithredu. Bydd Swyddfa'r Trydydd Sector yn ymgynghori ar y rheoliadau y bydd eu hangen yn 2007, a disgwylir i'r fframwaith newydd ddod i rym yn gynnar yn 2008. Mae'n debygol hefyd y bydd cyfansoddiadau enghreifftiol yn cael eu llunio ar gyfer SCEau. Bydd gwybodaeth ar gael o wefan y Comisiwn.

E. Llai o fiwrocratiaeth

Mae'r Ddeddf yn ddadreoleiddiol o ran ysbryd, gan alluogi elusennau i foderneiddio a rhoi mwy o hyblygrwydd iddynt gyflawni eu dibenion yn fwy effeithiol.

E1. Newid eich dibenion

Yn gryno

Os ydych yn ymddiriedolwr elusen anghorfforedig lai, gydag incwm gros yn eich blwyddyn ariannol ddiwethaf o ddim mwy na £10,000, mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn haws i chi ddiweddaru eich dibenion elusennol. Ar yr amod bod y dibenion newydd yn debyg i'r dibenion gwreiddiol, nid oes angen i chi ofyn i'r Comisiwn greu 'Cynllun' i'w newid.

Rhagor o fanylion

Y rheolau: Pan fydd ymddiriedolwyr elusen yn ystyried nad yw eu dibenion elusennol yn berthnasol bellach yn y gymdeithas fodern, gallant eu diweddaru mewn ffordd symlach. Rhaid i'r dibenion a ddiweddarwyd hyrwyddo buddiannau'r elusen yn dda a rhaid iddynt fod yn debyg i'r rhai blaenorol. Felly, er enghraifft, gallai elusen sydd wedi'i chychwyn i leddfu salwch ddiweddaru ei dibenion drwy gymryd rhan mewn cynllun hyrwyddo iechyd er mwyn annog byw'n iach.

Pleidleisio: Rhaid i'r ymddiriedolwyr fodloni eu hunain bod y newid o fudd i'r elusen a (chyn belled ag sy'n ymarferol) bod y dibenion newydd yn cynnwys dibenion tebyg i'r rheiny sy'n cael eu disodli. Rhaid i'r ymddiriedolwyr basio cynnig gan o leiaf ddau draean y rhai sy'n pleidleisio, ac anfon copi i'r Comisiwn gyda'r rhesymau dros basio'r cynnig.

Amserlen: Daw'r cynnig i rym yn awtomatig 60 diwrnod wedi iddo gael ei dderbyn gan y Comisiwn, os na fydd gwrthwynebiad gan y Comisiwn. Fodd bynnag, gellir estyn y cyfnod hwn os bydd y Comisiwn yn ei gwneud yn ofynnol i'r cynnig gael ei gyhoeddi'n gyhoeddus, neu os bydd angen mwy o wybodaeth arno. Fel arfer, dim ond pan fydd yn amlwg nad yw'r dibenion newydd yn hyrwyddo buddiannau'r elusen yn dda, neu os ydynt yn annhebyg i'r rhai blaenorol, y bydd y Comisiwn yn gwrthwynebu.

Y camau nesaf: Bydd y Comisiwn yn rhoi arweiniad manylach a ffurflen gynnig. Dylai ymddiriedolwyr, fodd bynnag, ystyried yr angen i gymryd cyngor cyfreithiol neu arbenigol arall ar unrhyw newidiadau yr hoffent hwy eu gwneud i ddibenion eu helusen.

Bydd y darpariaethau yn dod i rym yn gynnar yn 2008.

E2. Addasu eich dogfen lywodraethu

Yn gryno

Os ydych yn cynrychioli elusen anghorfforedig, erbyn hyn gallwch newid y 'pwerau a gweithdrefnau gweinyddu' – y rhannau o'ch dogfen lywodraethu sy'n ymwneud â chynnal a gweinyddu'ch elusen yn gyffredinol – heb ganiatâd y Comisiwn ymlaen llaw.

Os cwmni yw'ch elusen, gallwch wneud newidiadau i'ch dogfen lywodraethu eisoes heb ganiatâd y Comisiwn ymlaen llaw. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud hi'n haws i elusennau sy'n dymuno gwneud newidiadau o'r fath.

Rhagor o fanylion: elusennau anghorfforedig

Pwerau a gweithdrefnau gweinyddu: Dyma'r rhannau o ddogfen lywodraethu elusen sy'n ymwneud â chynnal a gweinyddu cyffredinol yr elusen a gwaith ei hymddiriedolwyr. Gall enghraifft fod yn nifer yr ymddiriedolwyr y mae eu hangen er mwyn llunio cworwm mewn cyfarfodydd. Mae'r Ddeddf yn diweddaru ac yn estyn rheolau presennol i'w gwneud hi'n haws i unrhyw elusen anghorfforedig addasu ei phwerau neu ei gweithdrefnau. Gall ymddiriedolwyr pob elusen anghorfforedig

ddefnyddio'r pŵer hwn, er y gallant yn hytrach ddewis defnyddio pŵer cyfatebol yn nogfen lywodraethu'r elusen.

Amddiffynfeydd: Mae'r pŵer hwn a ddiweddarwyd yn cadw amddiffynfeydd pwysig elusennau sy'n sefydliadau anghorfforedig â chorff o aelodau ar wahân i'r ymddiriedolwyr. Ar gyfer yr elusennau hynny, rhaid i aelodau'r elusen gynnal cyfarfod i gytuno ar gynnig yr ymddiriedolwyr. Yn y cyfarfod hwnnw, rhaid cytuno ar y cynnig gan fwyafrif o ddau draean drwy bleidlais neu drwy benderfyniad a wneir heb bleidlais a heb fynegiant unrhyw anghytundeb.

Rhaid i ymddiriedolwyr gofio hefyd diweddaru cofnod cofrestr y Comisiwn ar gyfer eu helusen gydag unrhyw newidiadau a wneir i'w dogfennau llywodraethu o dan y pŵer hwn.

Daeth y darpariaethau i rym ar 27 Chwefror 2007.

Gwybodaeth bellach ar wefan y Comisiwn:

- *Elusennau anghorfforedig: diwygiadau i ddogfennau llywodraethu – arweiniad i ymddiriedolwyr*
- *Gorchmynion a Chynlluniau*

Rhagor o fanylion: cwmnïau elusennol

Cyflymu'r broses: Rhaid i gwmnïau elusennol sy'n dymuno newid eu dogfen lywodraethu ddilyn y gofynion a bennir yn y ddogfen honno, a gofynion y Deddfau Cwmnïau. Fodd bynnag, bydd angen iddynt gael caniatâd y Comisiwn ar gyfer diwygiadau penodol yn unig sy'n ymwneud â chymeriad sylfaenol y cwmni. Diwygiadau yw'r rhain i:

- amcanion yr elusen yn ei dogfen lywodraethu;
- unrhyw ddarpariaeth yn ei dogfen lywodraethu sy'n ymwneud â beth sy'n digwydd i eiddo wrth ddiddymu'r cwmni; ac
- unrhyw ddarpariaeth yn ei dogfen lywodraethu lle byddai diwygio o fudd i gyfarwyddwyr neu aelodau, neu i bobl eraill sy'n gysylltiedig â hwy.

Bydd y darpariaethau yn dod i rym yn hwyrach yn 2007 neu'n gynnar yn 2008.

F. Beth sydd wedi newid i'r ymddiriedolwr unigol?

Mae'r adran hon yn edrych ar ba newidiadau a ddaw i ymddiriedolwyr unigol yn sgil y Ddeddf.

F. Beth sydd wedi newid i'r ymddiriedolwr unigol?

F1. Ai rôl wirfoddol sydd gan yr ymddiriedolwr o hyd?

Yr ateb byr

Yn gyffredinol, ie. Mae'r Ddeddf, fodd bynnag, yn galluogi ymddiriedolwyr i dderbyn tâl am ddarparu nwyddau neu wasanaethau i elusen os bydd rhai amodau penodol yn cael eu bodloni. Nid yw hyn yn dâl am fod yn ymddiriedolwr nac am unrhyw fath o gyflogaeth gontractiol o fewn yr elusen.

Rhagor o fanylion

Y manteision: Gall ymddiriedolwyr elusennau, neu'r rheiny sy'n gysylltiedig â hwy, dderbyn tâl yn haws am ddarparu nwyddau neu wasanaethau i'r elusen lle bo budd amlwg i'r elusen. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, gwaith cyfreithiol, plymwaith neu wasanaethau trydanol.

Y rheolau: Bydd elusennau yn gallu talu eu hymddiriedolwyr am ddarparu nwyddau neu wasanaethau ar yr amod bod:

- y telerau wedi'u nodi mewn cytundeb ysgrifenedig;
- y swm yn rhesymol yng nghyd-destun y gwasanaethau a ddarperir gan y person hwnnw;
- yr ymddiriedolwyr yn fodlon bod y trefniant er lles gorau yr elusen – golyga hyn fel arfer y bydd yn arbed arian neu'n cynnig gwell gwasanaeth i'r elusen;
- os bydd mwy nag un o'r ymddiriedolwyr yn derbyn tâl, bod yr ymddiriedolwyr sy'n elwa yn lleiafrif ymhlith holl ymddiriedolwyr yr elusen;
- y dogfennau llywodraethu heb gynnwys unrhyw beth a allai atal y person perthnasol rhag derbyn y tâl hwnnw; a
- nad yw ymddiriedolwyr sy'n debygol o elwa yn cymryd rhan mewn unrhyw benderfyniad ynghylch y cytundeb.

Amddiffynfeydd: Ceir amddiffynfeydd ychwanegol er mwyn osgoi camddefnyddio'r pŵer. Un yw'r ddyletswydd i ystyried arweiniad y Comisiwn; y llall yw'r gofyniad i weithredu yn unol â'r ddyletswydd gofal a bennir yn Neddf yr Ymddiriedolwr 2000. Noda'r ddyletswydd gofal fod rhaid i ymddiriedolwr '... ymarfer cymaint o ofal a sgil ag sy'n rhesymol yn yr amgylchiadau, gan roi ystyriaeth benodol i:

a) unrhyw wybodaeth neu brofiad arbennig sydd ganddo/i neu yr ystyria fod ganddo/i, ac

b) os yw'n gweithredu fel ymddiriedolwr yn rhinwedd busnes neu alwedigaeth, i unrhyw wybodaeth neu brofiad arbennig y mae'n rhesymol ei ddisgwyl gan berson sy'n gweithredu yn rhinwedd y busnes hwnnw neu'r alwedigaeth honno.'

Arweiniad: Dylai elusennau sy'n bwriadu talu eu hymddiriedolwyr gyfeirio at arweiniad y Comisiwn ar y pwnc, a fydd ar gael ar ei wefan. Dylent ystyried hefyd a fyddai'n briodol cael cyngor proffesiynol ai peidio.

Bydd y darpariaethau yn dod i rym yn gynnar yn 2008.

F2. Atebolrwydd yr ymddiriedolwr

Yn gryno

Rydym yn ymwybodol bod atebolrwydd personol yn peri gofid i ymddiriedolwyr presennol a darpar ymddiriedolwyr,

er ei bod hi'n anghyffredin i ymddiriedolwr ddioddef colled ariannol. Mae'r Ddeddf yn rhoi pŵer newydd i'r Comisiwn ryddhau ymddiriedolwyr rhag atebolrwydd personol am dorri ymddiriedaeth neu ddyletswydd pan fyddant wedi ymddwyn yn ddidwyll ac yn rhesymol ac y dylent gael eu hesgusodi'n deg.

Mae'r Ddeddf yn cydnabod hefyd ei bod hi'n rhesymol i elusennau brynu yswiriant indemniad ymddiriedolwyr, ac yn dileu'r rhan fwyaf o rwystrau i wneud hyn. Gall ymddiriedolwyr dalu'r premiymau gydag arian yr elusen, yn amodol ar rai cyfyngiadau ac amodau.

Rhagor o fanylion: atebolrwydd personol

Pan fydd elusennau'n dod ar draws problemau, gall ymddiriedolwyr fod yn bersonol atebol am unrhyw ddyledion neu golledion canlyniadol. Hyd yn hyn, nid yw'r Comisiwn wedi gallu cynnig sicrwydd cadarn i ymddiriedolwyr na fyddant yn atebol, gan mai dim ond y llysoedd all roi'r sicrwydd hwn. Fodd bynnag, bydd ymddiriedolwyr nawr yn gallu gwneud cais i'r Comisiwn yn ogystal ag i'r llysoedd am ryddhad rhag atebolrwydd personol.

Mae'r pŵer yn berthnasol dim ond lle bo ymddiriedolwyr wedi ymddwyn yn ddidwyll ac yn rhesymol ac y dylid eu hesgusodi yn deg. Bydd y Comisiwn yn dal i ystyried torri ymddiriedaeth yn ddifrifol iawn.

Rhagor o fanylion: yswiriant indemniad ymddiriedolwyr

Hyd yma, roedd angen cymeradwyaeth y Comisiwn ar elusennau fel arfer er mwyn prynu yswiriant indemniad ar gyfer eu hymddiriedolwyr. Nid oes angen pŵer penodol gan y Comisiwn na'r ddogfen lywodraethu ar ymddiriedolwyr bellach cyn prynu yswiriant o'r fath. Mae'r Ddeddf yn gosod rhai amodau penodol:

- Rhaid i ymddiriedolwyr fodloni eu hunain ei bod er lles gorau i'r elusen i brynu yswiriant indemniad gydag arian yr elusen.
- Rhaid i ddogfen lywodraethu'r elusen wahardd prynu yswiriant indemniad yn benodol, ond gall ymddiriedolwyr nawr brynu yswiriant indemniad pan fo'r ddogfen lywodraethu yn nodi'n syml waharddiad cyffredinol yn erbyn elw personol.

Cyfyngiadau: Rhaid i unrhyw bolisi yswiriant indemniad eithrio rhai meysydd penodol, yn bennaf mewn perthynas â thalu costau a dirwyon unrhyw ymddiriedolwr a fydd yn camymddwyn.

Ymddiriedolwyr a waharddwyd: Pan fydd rhywun wedi'i wahardd rhag bod yn ymddiriedolwr elusen, rhaid i'r Comisiwn ganiatáu cais i ildio'r gwaharddiad ar ôl pum mlynedd, oni bai bod rheswm da dros beidio â gwneud hynny. Mae hyn yn berthnasol i ymddiriedolwyr a waharddwyd rhag ymddwyn fel ymddiriedolwyr oherwydd camymddygiad neu gamreoli gweinyddu'r elusen yng Nghymru neu Loegr.

Daeth y darpariaethau i rym ar 27 Chwefror 2007.

Gwybodaeth bellach ar wefan y Comisiwn:

- *Elusennau ac yswiriant*
- *Ildio gwaharddiad rhag ymddwyn fel ymddiriedolwr elusen*
- *Yswiriant indemniad ymddiriedolwyr*

G. Beth gall y Comisiwn ei wneud drosoch chi?

Mae'r Ddeddf yn atgyfnerthu rôl y Comisiwn i annog gweinyddiaeth well o elusennau. Bydd hyn yn atal elusennau rhag mynd i drafferthion yn y lle cyntaf ac yn galluogi'r Comisiwn i'w helpu i gynnal egwyddorion gweinyddiaeth dda. O dan amgylchiadau anghyffredin a difrifol, fodd bynnag, mae angen i'r Comisiwn allu gweithredu'n gyflym ac amddiffyn elusennau pan fydd pethau'n mynd o'i le. Mae'r Ddeddf yn rhoi ystod ehangach o bwerau rheoleiddio iddo o dan amgylchiadau o'r fath.

G1. Datrys problemau a gweinyddiaeth well

Yn gryno

Mae'r Ddeddf yn rhoi mwy o hyblygrwydd i'r Comisiwn i helpu elusennau i ddatrys sefyllfaoedd amrywiol a all beri problemau a bod yn feichus. Gall y sefyllfaoedd hyn gynnwys sut i ymdrin â:

- rhoddion elusennol na ellir eu defnyddio bellach fel y'u bwriadwyd;
- elusen a sefydlwyd at ddibenion nad ydynt bellach yn berthnasol i gymdeithas fodern; ac
- elusennau sydd â chofnodion aelodaeth anghyflawn neu ddryslyd.

Rhagor o fanylion

'Cy-près': Mae hon yn egwyddor gyfreithiol hir-sefydledig a ddefnyddir pan:

- fydd rhodd elusennol wedi'i rhoi ac ni ellir defnyddio'r arian at ddibenion gwreiddiol yr apêl; neu
- fydd elusen wedi'i sefydlu at ddibenion sydd wedi dyddio a heb fod yn ymarferol bellach.

Yr egwyddor yw bod yn rhaid i unrhyw newid yn nefnydd y rhodd neu ddibenion yr elusen fod mor agos at y dibenion gwreiddiol ag sy'n bosibl. (Golyga 'cy-près' yn Ffrangeg Normanaidd 'mor agos â phosibl'.)

Cronfeydd 'sydd wedi methu': O dro i dro mae elusennau yn cynnal apeliadau sy'n methu â chasglu digon o arian i fodloni eu nod gwreiddiol. Yn yr un modd, gall apêl fod mor llwyddiannus fel bod yna arian dros ben na ellir ei ddefnyddio nac ychwaith ei ddychwelyd i'r cyfranwyr gwreiddiol. Mewn achosion eraill, gall rhai cronfeydd fodoli nad oes buddiolwyr ar ôl ganddynt bellach. Yn y gorffennol mae'r athrawiaeth cy-près wedi cyfyngu ar allu'r Comisiwn a'r llysoedd i alluogi elusennau i ddefnyddio'r cronfeydd 'sydd wedi methu' hyn mewn ffyrdd hyblyg.

Sut y bydd yn gweithio: Galluoga'r Ddeddf y Comisiwn a'r llysoedd i ystyried amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd cyfredol pan ddaw elusennau atynt yn ceisio mwy o ryddid yn y ffordd y cânt ddefnyddio'r cronfeydd. Er enghraifft, bydd y Comisiwn yn ystyried pa mor effeithiol yw'r dibenion newydd yn yr amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd cyfredol. Gall elusennau ddefnyddio'r arian a gyfrannwyd mewn ffordd fwy hyblyg pan na allant ei ddefnyddio yn y ffordd a fwriadwyd yn wreiddiol, wrth dal i gynnal yr ysbryd y gwnaed y rhodd gwreiddiol ynddo. Mae'r Ddeddf hefyd yn galluogi'r Comisiwn, yn ogystal â'r llysoedd, i roi cyfarwyddiadau bod eiddo penodol i gael ei drin fel eiddo sy'n berchen i gyfranwyr na ellir eu hadnabod.

Dibenion sydd wedi dyddio: Bu modd i'r Comisiwn ers amser greu Cynllun i newid dibenion elusen pan nad ydynt bellach yn ymarferol a phan nad oes gan yr elusen ei hun unrhyw bŵer i wneud newidiadau ei hun. Mae'r Ddeddf yn rhyddfrydoli'r athrawiaeth cy-près fel bod amgylchiadau'r dydd yn gallu cael eu hystyried yn llawn wrth benderfynu ar ddibenion newydd, wrth gadw'r bwriad tu ôl i ddibenion gwreiddiol yr elusen.

Wrth greu Cynllun, rhaid i'r llysoedd neu'r Comisiwn ystyried:

- ysbryd y rhodd wreiddiol;
- pa mor ddymunol yw dewis dibenion newydd sy'n agos at ddibenion gwreiddiol; ac
- angen yr elusen i gael dibenion sy'n addas ac yn effeithiol yng ngoleuni'r amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd presennol.

O ganlyniad dylai unrhyw ddibenion newydd y mae'r Comisiwn yn cytuno arnynt fod yn ffyddlon i weledigaeth sylfaenwyr neu

gyfranwyr yr elusen gan alluogi'r elusen weithredu'n effeithiol yn i y byd modern hefyd.

Bydd y darpariaethau yn dod i rym yn gynnar yn 2008.

Datrys anghydfodau aelodaeth: Gall aelodaeth fod yn ystyriaeth bwysig i rai elusennau. Mae hyn yn arbennig o wir pan all aelodau bleidleisio a meddu o bosibl ar hawliau cyfansoddiadol eraill. Dan rai amgylchiadau cyfyngedig bydd y Comisiwn yn defnyddio'r Ddeddf i ddatrys unrhyw anghydfodau am bwy sy'n aelod ai peidio:

- pan fydd yr elusen dan sylw yn gwneud cais am gymorth y Comisiwn; neu
- fel y gwêl y Comisiwn sydd orau yn ystod ymchwiliad.

Mae gan y Comisiwn hefyd y pŵer i benodi rhywun i benderfynu ar aelodaeth yr elusen, yn hytrach na gwneud hynny ei hun.

Daeth y darpariaethau i rym ar 27 Chwefror 2007.

Llacio gofynion cyhoeddusrwydd ar gyfer Cynlluniau a Gorchmynion Ymddiriedolwyr: Mae gan y Comisiwn bwerau i wneud Cynllun i alluogi elusen i newid y ffordd y mae'n gweithredu ei dibenion, neu sut y mae'n cael ei chynnal. Cyn y Ddeddf, bu'n rhaid i elusen hysbysebu'r Cynllun o leiaf fis cyn iddo ddod yn weithredol, fel arfer yn y wasg leol. Roedd hyn yn berthnasol hefyd i Orchmynion a wnaed gan y Comisiwn ynglŷn ag ymddiriedolwyr neu unigolion eraill, fel y rheiny mewn perthynas â'u penodi neu gael gwared arnynt.

Beth sydd ar waith nawr: O dan y Ddeddf, gall y Comisiwn eisoes benderfynu dros ei hun a oes angen cyhoeddusrwydd ar gyfer Cynllun neu Orchymyn Ymddiriedolwr ai peidio. Polisi'r Comisiwn yw gwneud cyhoeddusrwydd yn ofynnol pan fydd rhesymau da dros wneud hynny. Bydd hyn yn dileu baich gweinyddu i lawer o elusennau.

Arfer disgresiwn: Hyd yn oed os yw'r Comisiwn yn penderfynu bod angen cyhoeddusrwydd, gall ddewis hyd y cyfnod hysbysu ac a oes angen i hysbysebu ddigwydd yn ardal leol yr elusen. Ar y cyfan, nid oes tebygrwydd bydd angen hysbysebu mor aml, a lle bo angen, bydd cyfnodau hysbysu yn llai.

Daeth y darpariaethau i rym ar 27 Chwefror 2007.

Gwybodaeth bellach ar wefan y Comisiwn:

- *Gorchmynion a Chynlluniau*
- *Ymdrin â chynrychioliadau mewn ymateb i hysbysiadau cyhoeddus*

G2. Amddiffyn elusennau

Yn gryno

Bydd y Comisiwn yn gallu cyfarwyddo ymddiriedolwyr a gweithwyr i gymryd camau penodol, yn ogystal â chynnig cyfarwyddyd ar sut y defnyddir eiddo elusennol. Bydd hefyd yn gallu gwahardd neu dynnu aelodaeth elusen oddi ar ymddiriedolwyr neu weithwyr sydd eisoes wedi'u gwahardd o'u swydd fel ymddiriedolwr neu weithiwr.

Rhagor o fanylion

Cyfarwyddiadau penodol: Er mwyn i'r Comisiwn gyfarwyddo gweithredoedd ymddiriedolwyr, swyddogion, gweithwyr neu gorff corfforedig elusennol, rhaid bod ganddo ymchwiliad ar waith. Bydd y Comisiwn yn ymyrryd os yw'n credu bod camymddwyn neu gamreoli wedi digwydd, neu os oes ganddo bryderon ynghylch diogelwch neu ddefnydd cywir o eiddo elusen.

Defnyddio eiddo elusen: Gall y Comisiwn weithredu – heb fod archwiliad ar waith - os nad yw'n credu bod y rheiny sy'n berchen ar neu'n rheoli'r eiddo yn ei ddefnyddio'n briodol at ei ddibenion cywir. Gall y Comisiwn ddefnyddio ei bŵer mewn perthynas ag unrhyw eiddo a ddelir gan neu sydd mewn ymddiriedolaeth ar ran

elusen. Mae'r pŵer yn ddibynnol ar amodau. Rhaid i'r Comisiwn beidio â chyfarwyddo cam sy'n anghyfreithlon neu sydd wedi'i wahardd gan ymddiriedolaethau'r elusen, neu nad yw'n gyson â dibenion yr elusen.

Gwahardd aelodaeth: Rhaid i ymchwiliad fod ar waith eisoes er mwyn i'r Comisiwn allu arfer y pŵer hwn. Gall, er enghraifft, ddileu neu wahardd aelodaeth person rhag elusen sydd eisoes wedi'i wahardd neu ei dynnu o swyddogaeth ymddiriedolwr, swyddog, asiant neu weithiwr. Byddai hyn yn atal y cyfryw berson rhag ceisio am ei ail-ethol neu ei ail-benodi i'w swydd flaenorol o ganlyniad i'w aelodaeth o'r elusen.

Daw'r darpariaethau i rym yn gynnar yn 2008.

G3. Pwerau ehangach wrth gynnal ymchwiliadau statudol

Yn gryno

Mae'r Ddeddf yn rhoi pŵer newydd i'r Comisiwn gael mynediad i eiddo a chymryd ac atafelu dogfennau neu wybodaeth. Mae'r pŵer hwn ar gael dan amgylchiadau penodol yn unig, ac mae'n ddarostyngedig i amddiffynfeydd. Disgwylia'r Comisiwn ei ddefnyddio'n anaml.

Rhagor o fanylion

Yr amgylchiadau: Rhaid i'r Comisiwn fod wedi dechrau ymchwiliad yn gyntaf. Rhaid i'r Comisiwn sicrhau Ynad Heddwch hefyd fod yna ddogfennau neu wybodaeth yn yr adeilad sydd i'w chwilio sy'n berthnasol i'r ymchwiliad dan sylw, a phe gwnaed cais amdanynt na fyddai'r rhain yn cael eu rhoi, neu y byddent yn cael eu symud, neu eu ymhel â hwy, eu cuddio neu eu dinistrio. Os yw'n fodlon ar y materion hyn, gallai'r Ynad Heddwch roi gwarant i'r Comisiwn yn awdurdodi'r chwilio a'r atafelu.

Cwmpas gweithredoedd y Comisiwn: Mae hawl ganddo wneud y canlynol:

- cael mynediad i adeiladau a enwir yn y warant a'u harchwilio;
- mynd ag unrhyw ddogfennau, disgiau cyfrifiadur neu ddyfeisiau storio electronig eraill sy'n ymddangos yn berthnasol i'r ymchwiliad;
- atal ymyrryd ar neu ddinistrio deunydd o'r fath;
- cadw'r dogfennau neu ddyfeisiau cyhyd ag sydd angen at ddibenion yr ymchwiliad;
- cymryd copïau o, neu ddetholiadau o, ddogfennau a gwybodaeth ar ddisgiau cyfrifiadur neu ddyfeisiau storio electronig; a'i
- gwneud yn ofynnol i bobl yn yr adeilad esbonio dogfen neu wybodaeth neu ddweud wrth y Comisiwn ble y gall ddod o hyd i ddogfennau neu wybodaeth berthnasol.

Gofynion y Comisiwn: Rhaid iddo fynd i mewn i'r adeilad o fewn mis i ddyddiad y warant, ac ar amser rhesymol o'r dydd. Rhaid iddo wneud cofnod ysgrifenedig o'r mynediad a'r atafelu ac, os gofynnir, darparu copi o'r cofnod hwnnw i ddeiliad yr adeilad neu ei gynrychiolydd. Rhaid i'r cofnod ysgrifenedig gynnwys gwybodaeth benodol, gan gynnwys enwau'r rhai sy'n cynnal y chwiliad, a rhestr o'r holl ddogfennau neu ddyfeisiau a gymerir o'r lle. Dylid gwneud y cofnod hwnnw cyn gadael yr adeilad (oni bai bod hynny'n anymarferol).

Dychwelyd eitemau a atafaelwyd: gall y Comisiwn ddychwelyd eitemau a atafaelwyd naill ai i'r person y'i chymerwyd oddi arno neu i unrhyw un o ymddiriedolwyr yr elusen a oedd yn berchen arnynt.

Daeth y darpariaethau i rym ar 27 Chwefror 2007.

H. Amgylchiadau penodol

Noda'r adran hon y darpariaethau newydd ar gyfer amgylchiadau penodol y gall elusennau eu hwynebu wrth eu gwaith. Mae rhai o'r rhain yn ddigwyddiadau unigol, fel cyflwyno gofynion cofrestru ar gyfer llawer o'r elusennau mwy sydd 'wedi'u heithrio' ac 'wedi'u hesgusodi'. Mae rhai yn llai cyffredin, fel apelio yn erbyn penderfyniadau'r Comisiwn: bydd sefydlu Tribiwnlys Elusennau yn ei gwneud yn rhatach ac yn symlach i elusennau wneud hynny. Mae darpariaethau eraill yn ymwneud â gweithgareddau penodol – trosglwyddo eiddo neu godi arian, er enghraifft – y gall elusennau gymryd rhan ynddynt. Cyflwyna'r Ddeddf rôl newydd i'r Comisiwn hefyd i wirio a yw elusennau a sefydliadau eraill yn gymwys i gynnal casgliadau gan y cyhoedd.

H1. Elusennau wedi'u heithrio ac wedi'u hesgusodi: beth sydd wedi newid?

Yr ateb byr

Bydd rhaid i elusennau oedd 'wedi'u heithrio', a rhai oedd 'wedi'u hesgusodi' rhag cofrestru cyn i'r Ddeddf gael ei phasio gofrestru os bydd eu hincwm blynyddol gros yn fwy na £100,000. Mae'r Ddeddf yn egluro hefyd sut y caiff elusennau sydd wedi'u hesgusodi eu rheoleiddio yn y dyfodol.

Rhagor o fanylion: elusennau wedi'u heithrio

Cofrestru elusennau wedi'u heithrio: Dros y blynyddoedd, mae rhai grwpiau o elusennau – fel elusennau'r Sgowtiaid a Geidiaid, ac elusennau crefyddol amrywiol – wedi'u hesgusodi rhag cofrestru gyda'r Comisiwn er eu bod wedi bod yn atebol i'w awdurdodaeth. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol nawr i'r rhai sydd ag incwm blynyddol o fwy na £100,000 gofrestru gyda'r Comisiwn a bodloni'r gofynion canlyniadol.

Incwm blynyddol o £100,000 neu lai: Bydd yr elusennau hyn yn parhau i fod yn eithriedig ac ni fydd angen iddynt gofrestru gyda'r Comisiwn, er y bydd hyn yn cael ei adolygu mewn pum mlynedd.

Diben y newid: Sicrhau atebolrwydd a rheoleiddio gwell ar gyfer y sefydliadau dan sylw.

Rhagor o fanylion: elusennau wedi'u hesgusodi

Cofrestru elusennau wedi'u hesgusodi: Yn hanesyddol ystyriwyd bod cyrff cyhoeddus ar wahân i'r Comisiwn yn monitro cydymffurfiad rhai elusennau â'r gyfraith elusennau sylfaenol yn ddigonol. Dyma pam mae rhai grwpiau o elusennau, fel corfforaethau addysg bellach, ysgolion sefydliedig a gwirfoddol, y mwyafrif o brifysgolion ac amgueddfeydd, yn cael eu galw'n elusennau 'wedi'u hesgusodi'. Roeddent y tu allan i awdurdodaeth y Comisiwn ac nid oedd hawl ganddynt i gofrestru hyd yn oed, er bod rhaid iddynt gydymffurfio â'r gyfraith elusennau.

Mae'r Ddeddf am sicrhau bod yr elusennau hyn yn cael eu monitro'n briodol. Mae'n gwahaniaethu rhwng yr elusennau wedi'u hesgusodi hynny sydd â 'phrif reoleiddiwr' ddifiniedig a'r rheiny heb.

Elusennau wedi'u hesgusodi a gaiff eu harolygu gan 'brif reoleiddiwr': Ni fydd rhaid i'r elusennau hyn gofrestru gyda'r Comisiwn. Bydd y prif reoleiddiwr yn gorff sydd eisoes yn bodoli sydd ar hyn o bryd yn goruchwylio'r elusen at swyddogaethau eraill ond a fydd yn ysgwyddo cyfrifoldeb ychwanegol am fonitro cydymffurfio â'r gyfraith elusennau. Enghraifft dda o brif reoleiddiwr yw'r Gorfforaeth Dai sy'n rheoleiddio asiantaethau tai yn Lloegr. Fodd bynnag, ar ddymuniad y prif reoleiddiwr perthnasol, bydd y Comisiwn yn gallu ymchwilio i elusennau wedi'u hesgusodi, a byddant yn dod o dan bwerau amddiffyn y Comisiwn.

Pan nad yw'n bosibl dynodi prif reoleiddiwr: Ni fydd elusennau wedi'u hesgusodi o'r fath wedi'u hesgusodi bellach a byddan nhw'n dod yn elusennau wedi'u heithrio, gan syrthio o fewn awdurdodaeth llawn y Comisiwn, gan gynnwys ei bwerau amddiffyn ac ymchwilio. Fodd bynnag, dim ond yr elusennau hynny (gynt yn rhai wedi'u hesgusodi) gydag incwm blynyddol dros £100,000 fydd yn gorfod cofrestru.

Y camau nesaf: Mae Swyddfa'r Trydydd Sector yn gweithio gyda phrif reoleiddwyr er mwyn cytuno sut bydd y trefniadau newydd yn gweithio a sicrhau bod gan y rheoleiddwyr yr hawliau sydd eu hangen ar gyfer y swyddogaeth hon.

Ni ddisgwylir i'r newidiadau hyn ar gyfer elusennau wedi'u heithrio ac elusennau wedi'u hesgusodi ddod i rym cyn 2008. Mae angen amser ar yr elusennau eu hunain, prif reoleiddwyr arfaethedig elusennau wedi'u hesgusodi a'r Comisiwn i baratoi ar gyfer y newidiadau.

H2. Elusennau bychain a throsglwyddo eiddo

Yn gryno

Mae'r Ddeddf yn diweddaru darpariaethau presennol i'w gwneud yn haws i ymddiriedolwyr elusen fach, anghorfforedig drosglwyddo eu heiddo i elusen arall. Bydd y Ddeddf yn cynyddu'r nifer o elusennau a fydd yn gallu manteisio ar y darpariaethau hyn drwy godi'r terfyn incwm blynyddol uchaf y maen nhw'n berthnasol iddynt o £5,000 i £10,000.

Rhagor o fanylion

Ar hyn o bryd gall rhai elusennau anghorfforedig bychain iawn drosglwyddo eu holl eiddo i un elusen neu fwy drwy wneud penderfyniad, y mae'n rhaid i'r Comisiwn ei gymeradwyo. Mae hyn yn symlach na gofyn i'r Comisiwn wneud Cynllun i alluogi'r trosglwyddiad. Bydd y broses hon yn cael ei symleiddio'n bellach a bydd ar gael i elusennau gydag incwm blynyddol llai na £10,000, er bydd rhai amddiffynfeydd yn parhau.

Cwmpas: Bydd y Ddeddf yn galluogi i eiddo gael ei drosglwyddo i fwy nag un elusen. Rhaid i'r ymddiriedolwyr ystyried bod trosglwyddiad o'r fath yn angenrheidiol er mwyn datblygu'r dibenion maen nhw'n dal yr eiddo atynt. Hefyd, yn achos eiddo nad yw'n gyfyngedig, rhaid i'r derbynwyr feddu ar un diben o leiaf sy'n debyg iawn i ddibenion yr elusen sy'n trosglwyddo (mae gofynion gwahanol yn berthnasol i eiddo sy'n waddol parhaol – gweler isod).

Cael caniatâd y Comisiwn i drosglwyddo: Ar hyn o bryd rhaid i'r Comisiwn roi ei ganiatâd cyn y gellir trosglwyddo. Mae'r drefn newydd yn symlach. Os nad yw'r Comisiwn yn gwrthwynebu'r trosglwyddo o fewn 60 diwrnod o dderbyn penderfyniad yr elusen, cymerir ei fod wedi rhoi caniatâd. Fodd bynnag, gellir estyn y cyfnod 60 diwrnod os bydd y Comisiwn angen rhybudd cyhoeddus am y penderfyniad neu wybodaeth bellach.

Os oes gan yr elusen waddol parhaol: Ystyr 'gwaddol parhaol' yw eiddo (fel tir, adeiladau, buddsoddiadau, arian neu eiddo arall) na all ymddiriedolwyr ei ddefnyddio fel pe bai'n incwm, na'i werthu i godi arian. Mae yna reolau arbennig am y darpariaethau hyn ar gyfer elusennau sy'n meddu ar waddol parhaol. Yn wahanol i'r drefn ar gyfer eiddo nad yw'n gyfyngedig, ni ellir trosglwyddo cyfalaf ond i dderbynwyr sy'n bodloni o leiaf un o'r meini prawf canlynol:

(i) Pan fydd y trosglwyddiad i ddwy neu fwy o elusennau, yna:

- fel grŵp, mae ganddynt ddibenion sy'n debyg iawn i holl ddibenion yr elusen sy'n trosglwyddo; ac
- fel unigolion, mae gan bob un ddibenion sy'n debyg iawn i un neu fwy o ddibenion yr elusen sy'n trosglwyddo.

(ii) Pan fydd y trosglwyddiad i un elusen yn unig, wedyn rhaid bod gan y derbynnydd ddibenion sy'n debyg iawn i holl ddibenion yr elusen sy'n trosglwyddo.

Bydd y Comisiwn yn cyhoeddi arweiniad am rannu gwaddol parhaol rhwng dwy neu fwy o elusennau.

Bydd y darpariaethau yn dod i rym yn gynnar yn 2008.

H3. Cofrestru cyfuniadau

Yn gryno

Problem dechnegol i elusennau sy'n cyfuno yw ansicrwydd posibl ynghylch beth i'w wneud gyda chymynroddion a rhoddion eraill sydd wedi'u bwriadu ar gyfer elusennau sydd wedi 'diflannu' o ganlyniad i'r cyfuno. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn sefydlu cofrestr o gyfuniadau a fydd (yn y mwyafrif o achosion) yn goresgyn y broblem hon. Bydd y Ddeddf hefyd yn symleiddio'r broses o drosglwyddo eiddo, gan gynnwys tir, yn yr achosion hyn.

Rhagor o fanylion

Y gofrestr o gyfuniadau: Bydd hon o gymorth pan fydd cyfuno yn digwydd pan fydd naill ai:

- un elusen yn trosglwyddo ei heiddo i un arall ac yn peidio â bodoli; neu
- dwy neu fwy o elusennau yn uno, y ddwy yn peidio â bodoli ac elusen arall yn cael ei chreu yn eu lle sy'n meddu ar eu holl eiddo.

Bydd y Comisiwn yn creu cofrestr i gofnodi manylion penodol pob cyfuniad y bydd yn ymwybodol ohono a bydd yn trefnu bod y gofrestr ar gael i'r cyhoedd.

Y manteision: Er nad yw cofrestru cyfuniad yn orfodol, mae'n galluogi i roddion i elusen gael eu trosglwyddo'n awtomatig i'r elusen newydd gyfunol. Mae hyn yn arbennig o ddefnyddiol yng nghyd-destun cymynroddion neu roddion a adawyd i'r elusennau a fydd yn 'diflannu' o ganlyniad i'r cyfuno. Mae'r ddarpariaeth hon yn helpu i gadw dymuniad y cymynroddion a'r rhoddion a gyflwynwyd i un o'r elusennau sy'n cyfuno. Mae defnyddio 'datganiad breinio' yn symleiddio trosglwyddo teitl y tir sy'n perthyn i unrhyw un o'r elusennau dan sylw; mewn achosion o'r fath bydd yn orfodol rhoi gwybod i'r Comisiwn am y cyfuno er mwyn ei gofrestru.

Bydd y darpariaethau yn dod i rym yn hwyrach yn 2007.

H4. Gwario o gronfeydd gwaddol

Yn gryno

Bydd elusennau anghorfforedig llai (y rheiny ag incwm o £1,000 neu lai, neu â gwaddol sydd â gwerth marchnad o £10,000 neu lai) yn ei chael hi'n haws i wario gwaddol parhaol nad yw'n dir sy'n cael ei ddal gan ymddiriedolaethau at ddefnydd penodol. Bydd elusennau anghorfforedig mwy, fodd bynnag, yn gallu gwneud hynny dan amgylchiadau penodol yn unig a bydd rhaid iddynt gael cytundeb y Comisiwn.

Rhagor o fanylion

Gwaddol parhaol: Golyga hyn eiddo (fel tir, adeiladau, buddsoddiadau neu arian) na all yr ymddiriedolwyr ei wario fel pe bai'n incwm. Ar hyn o bryd, os oes gan elusen waddol parhaol, gall wario'r incwm a gynhyrchir gan y gwaddol ond ni all wario'n hawdd y gronfa waddol ei hun. Bydd y Ddeddf yn estyn yr amgylchiadau pan all elusen wario gwaddol parhaol fel pe bai'n incwm.

Elusennau anghorfforedig bychain: Bydd y rheolau uchod ar wario gwaddol parhaol yn berthnasol i elusennau anghorfforedig sydd â naill ai incwm blynyddol o £1,000 neu lai, neu pan fydd gwerth marchnad y gronfa waddol dan sylw yn £10,000 neu lai. Bydd y Ddeddf yn galluogi'r ymddiriedolwyr yn yr amgylchiadau hyn i benderfynu gwario'r gwaddol parhaol heb fod angen caniatâd y Comisiwn.

Fodd bynnag, rhaid i elusennau'n gyntaf fodloni eu hunain y gellid gweithredu'r dibenion y crëwyd y gronfa waddol ar eu cyfer yn fwy effeithiol drwy wario rhan neu'r cyfan o'r cyfalaf. Nid yw hyn yn berthnasol ar gyfer tir sy'n cael ei ddal gan ymddiriedolaethau ar gyfer defnydd penodol.

Elusennau anghorfforedig mwy: Os yw elusen yn anghorfforedig gydag incwm blynyddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf o dros £1,000 **a** bod gwerth marchnad y gwaddol parhaol dros £10,000, bydd rheolau sydd ychydig yn wahanol yn berthnasol. Gall wario gwaddol parhaol, ond er mwyn amddiffyn buddiannau cyfranwyr rhaid iddi'n gyntaf gael caniatâd y Comisiwn.

Wrth benderfynu a yw'n caniatáu i elusen wario'r gwaddol, rhaid i'r Comisiwn ystyried unrhyw dystiolaeth o ewyllys y cyfrannwr, yn ogystal ag unrhyw newid yn amgylchiadau'r elusen.

Nid yw'r rheolau newydd yn berthnasol i dir sy'n cael ei ddal gan ymddiriedolaethau ar gyfer defnydd penodol.

Bydd y darpariaethau'n dod i rym yn gynnar yn 2008.

H5. Codi morgais ar eiddo elusennol ar gyfer benthyciad neu grant

Yn gryno

Nid oes angen caniatâd y llysoedd na'r Comisiwn ar ymddiriedolwyr bellach er mwyn galluogi i dir sy'n perthyn i'w elusen gael ei forgeisio, ar yr amod eu bod yn cael ac yn ystyried cyngor ysgrifenedig priodol.

Rhagor o fanylion

Yr amodau: O'r blaen, roedd rhaid i ymddiriedolwyr gael awdurdod y llysoedd neu'r Comisiwn i ganiatáu morgais ar dir eu helusen. Eithriad oedd pan roedd ymddiriedolwyr yn caniatáu'r morgais fel ernes ar gyfer ad-dalu benthyciad penodol, a'u bod wedi cael ac wedi ystyried cyngor ysgrifenedig priodol.

Cwmpas: Mae'r Ddeddf yn estyn yr ystod o forgeisiau nad oes rhaid i ymddiriedolwyr gael caniatâd y llys neu'r Comisiwn ar eu cyfer. Gallant nawr, heb ganiatâd, ganiatáu morgeisiau i sicrhau ad-dalu grant, ac i sicrhau cyflawni gofynion eraill yn ogystal â sicrhau benthyciadau penodol. Hefyd, nid oes angen caniatâd arnynt bellach i ganiatáu morgeisiau er mwyn sicrhau unrhyw fenthyciad, grant neu rwymedigaeth yn y dyfodol y gallent hwy fel yr un sy'n rhoi'r benthyciad ei gynnig i'r benthyciwr, yn ogystal â'r benthyciad, grant neu rwymedigaeth sy'n cael eu hystyried ar y pryd.

O dan y rheolau ar gyfer morgeisiau nad oes angen caniatâd ar eu cyfer, rhaid i ymddiriedolwyr gydymffurfio â'r gofynion canlynol:

(i) Yn achos morgais i sicrhau benthyciad neu grant rhaid iddynt gael ac ystyried cyngor priodol a roddir iddynt yn ysgrifenedig ar a yw'r benthyciad neu'r grant arfaethedig yn:

- angenrheidiol ar gyfer y weithred benodol;
- priodol yn nhermau statws yr elusen; ac
- yn cynnig llog a thaliadau eraill sy'n rhesymol ac y gall yr elusen fforddio eu talu.

(ii) Yn achos morgais i sicrhau bodloni gofynion unrhyw rwymedigaeth arfaethedig arall, rhaid iddynt gael ac ystyried

cyngor priodol a ydyw'n rhesymol iddynt fel ymddiriedolwyr gymryd y fath gam, o ystyried dibenion yr elusen.

Daeth y darpariaethau i rym ar 27 Chwefror 2007.

Gwybodaeth bellach ar wefan y Comisiwn

- *Cael gwared ar dir elusen*
- *Benthyciadau a morgeisiau*
- *Gwerthu buddiannau elusen mewn eiddo*

H6. Codi Arian

Yn gryno

Ar hyn o bryd rhaid i'r rhai sy'n codi arian yn broffesiynol a chyfranogwyr masnachol wneud 'datganiadau erfyniad' wrth godi arian ar ran elusennau. Mae'r Ddeddf yn tynhau sut y dylai'r datganiadau hyn gael eu gwneud. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r rheiny sy'n ymwneud yn uniongyrchol â chynnal yr elusen – fel ei hymddiriedolwyr a'i gweithwyr – wneud datganiad syml wrth gasglu yn gyhoeddus dros yr elusen honno.

Bydd y Ddeddf yn sefydlu cynllun cynhwysfawr ac unedig ar gyfer rheoleiddio casgliadau elusennol cyhoeddus. Mae gan y Comisiwn rôl newydd i sicrhau a yw elusen yn addas ac yn briodol i gynnal casgliadau elusennol cyhoeddus. Yn gyffredinol, rhaid i gasgliadau a drefnwyd gael trwydded, er bod eithriad ar gyfer casgliadau tymor byr sy'n gweithredu'n lleol ar raddfa fach.

Rhagor o fanylion: datganiadau erfyniad

Rhaid i'r rhai sy'n codi arian yn broffesiynol a chyfranogwyr masnachol wneud datganiad manwl, y mae'n rhaid iddo gynnwys gwybodaeth am bwy maen nhw'n casglu arian neu roddion ar eu rhan a faint mae'r sefydliad yn cael ei dalu am yr apêl. Yr enw ar hwn yw 'datganiad erfyniad'. Rhaid i ymddiriedolwyr neu weithwyr esbonio eu rôl o fewn yr elusen wrth gasglu mewn mannau cyhoeddus. Nid oes rhaid i wirfoddolwyr sy'n casglu arian wneud datganiad.

Diffiniadau: Mae 'rhywun sy'n codi arian yn broffesiynol' yn berson neu'n fusnes sy'n cael ei dalu i godi arian dros elusennau. Nid yw 'cyfranogwr masnachol' yn fusnes sy'n codi arian, ond yn gorff sy'n cymryd rhan mewn ymgyrch hyrwyddo gydag elusen, neu dros achos elusennol er mwyn codi arian iddynt, fel rhan o'i weithgareddau busnes arferol. Mae'r gyfraith eisoes yn ei gwneud yn ofynnol i elusennau gael trefniadau contractio pan fyddant yn gweithio gyda rhai sy'n codi arian yn broffesiynol neu gyfranogwyr masnachol.

Gwirfoddolwyr, ymddiriedolwyr, swyddogion, gweithwyr ayyb. elusen: Nid yw'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i wirfoddolwyr sy'n codi arian wneud datganiad erfyniad. Fodd bynnag, wrth godi arian mewn lle cyhoeddus neu o ddrws i ddrws, bydd y Ddeddf yn pennu bod rhaid i ymddiriedolwyr, swyddogion a gweithwyr elusen ddatgan:

- dros bwy maen nhw'n codi arian;
- os oes mwy nag un sefydliad, yn ôl pa gyfrannau y bydd pob sefydliad yn elwa'n unigol;
- y ffaith eu bod yn swyddog, gweithiwr neu ymddiriedolwr y sefydliad; ac
- eu bod yn derbyn tâl am godi arian.

Rhai sy'n codi arian yn broffesiynol: Wrth apelio ar ran elusen, elusennau, neu achosion elusennol, am arian neu

unrhyw eiddo arall, bydd rhaid i'r rhai sy'n codi arian yn broffesiynol ddatgan yn glir:

- dros bwy maen nhw'n codi arian;
- os oes mwy nag un sefydliad, yn ôl pa gyfrannau y bydd pob sefydliad yn elwa'n unigol.
- sut mae'r tâl maen nhw'n ei dderbyn yn cael ei gyfrifo; a
- faint byddant yn cael eu talu mewn cysylltiad â'r apêl, neu amcangyfrif mor gywir â phosibl o dan yr amgylchiadau.

Cyfranogwyr masnachol: Wrth wneud gwaith elusennol ar ran elusen, elusennau neu achosion elusennol, am arian neu eiddo arall, bydd rhaid i gyfranogwyr masnachol ddatgan yn glir:

- pa elusennau neu achosion elusennol fydd yn elwa o'r fenter hyrwyddo;
- os oes mwy nag un sefydliad, yn ôl pa gyfrannau bydd pob sefydliad yn elwa'n unigol; a
- faint o'r elw o'r fenter hyrwyddo fydd yn mynd i'r elusen, elusennau neu achos(ion) elusennol, neu roi amcangyfrif mor gywir â phosibl o dan yr amgylchiadau.

Gwaith pellach: Bydd Swyddfa'r Trydydd Sector a'r Comisiwn yn gweithio gyda'r sector i ddatblygu arweiniad ymarferol i helpu elusennau, rhai sy'n codi arian yn broffesiynol a chyfranogwyr masnachol i fodloni'r anghenion newydd.

Bydd y darpariaethau yn dod i rym yn hwyrach yn 2007.

Rhagor o fanylion: casgliadau elusennol cyhoeddus

Y mathau o gasgliadau a fydd yn dod o dan y cynllun trwyddedu newydd: Bydd pob casgliad at ddibenion elusennol, dyngarol neu gymwynasgar sy'n cael eu cynnal o ddrws i ddrws neu mewn lle cyhoeddus, gan gynnwys casglu arian parod, debydau uniongyrchol neu archebion sefydlog, a nwyddau yn cael eu cwmpasu gan y cynllun.

Mathau o gasgliadau nad ydynt yn dod o dan y cynllun trwyddedu newydd: Nid yw casgliadau sy'n digwydd mewn siopau neu adeiladau busnes eraill, eglwysi, neuaddau pentref, cartrefi pobl a lleoedd preifat eraill yn cael eu cwmpasu gan y cynllun; na thuniau casglu sefydlog, na chasgliadau at ddibenion nad ydynt yn elusennol.

Mannau cyhoeddus: Cyfeiria'r Ddeddf at gasgliadau mewn 'mannau cyhoeddus'. Bydd y disgrifiad hwn yn ymestyn i beth tir preifat lle nad yw'r mynediad i'r cyhoedd yn gyfyngedig, fel neuaddau tocynnau gorsafoedd a blaengyrtiau archfarchnadoedd.

Casgliadau elusennol lleol, tymor byr: Mae'r Ddeddf yn eithrio'r rhain. Bydd y diffiniad penodol o ba fath o gasgliadau sy'n cael eu hystyried yn rhai lleol, tymor byr yn cael ei bennu mewn rheoliadau yn dilyn ymgynghori. Ysbryd y Ddeddf yw na fydd casgliadau anfynych a drefnir yn lleol, fel canu carolau, neu gasglu ar gyfer ffair sborion ysgol, yn cael eu beichio gan y cynllun trwyddedu. Nid oes angen i'r casgliadau sydd wedi'u hesgusodi hyn gael eu trwyddedu, ond rhaid i'r trefnydd adael i'r awdurdod lleol wybod ymlaen llaw am y casgliad.

Trwyddedu: Bydd dau gam i drwyddedu o dan y cynllun newydd.

Cam 1: Rhaid i unrhyw un sy'n bwriadu trefnu casgliadau elusennol cyhoeddus (ac eithrio'r rhai wedi'u hesgusodi – gweler uchod) wneud cais i'r Comisiwn am dystysgrif casgliadau cyhoeddus. Pan roddwyd tystysgrif, bydd y Comisiwn yn gallu ei gwahardd neu ei thynnu'n ôl, neu roi rhagor o amodau ynghlwm

wrthi. Bydd y dystysgrif yn ddilys am hyd at bum mlynedd cyn bod angen ei hadnewyddu. Gall y Comisiwn wrthod rhoi tystysgrif ar rai seiliau penodol, er enghraifft os yw'r ymgeisydd wedi methu â darparu'r wybodaeth angenrheidiol, neu os bydd ef neu hi wedi'i d/dyfarnu'n euog o droseddau penodol.

Cam 2: Mae hyn yn dibynnu ar y math o gasgliad.

Casgliadau drws-i-ddrws: Os yw'r cam cyntaf wedi bod yn llwyddiannus, bydd y trefnydd yn gallu cynnal casgliadau drws-i-ddrws mewn unrhyw ardal yng Nghymru a Lloegr, ar yr amod eu bod yn rhoi gwybod i'r awdurdod lleol perthnasol ymlaen llaw. Ni fydd angen trwydded benodol arnynt.

Casgliadau mewn man cyhoeddus: Os yw'r cam cyntaf wedi bod yn llwyddiannus, gall yr ymgeisydd ofyn i'r awdurdod lleol am drwydded gasglu mewn man cyhoeddus. Mae'r drwydded hon yn caniatáu casglu ar adegau penodol mewn mannau cyhoeddus penodol yn ardal yr awdurdod lleol hwnnw. Rhaid i benderfyniad yr awdurdod lleol i gyhoeddi trwydded ai peidio fod yn seiliedig ar a fyddai'r casgliad yn peri anghyfleustra i'r cyhoedd ai peidio. Wrth wneud y penderfyniad hwn bydd yr awdurdod lleol yn penderfynu a oes digon o 'gynhwysedd' yn yr ardal a enwebwyd a bydd hyn yn dibynnu ar ba gasgliadau eraill sy'n cael eu cynnal yn yr ardal honno neu o'i chwmpas ac ar ba amserau.

Ni fydd y cynllun trwyddedu yn dod i rym cyn 2009. Rhaid i Swyddfa'r Trydydd Sector a'r Comisiwn wneud gwaith manylach i baratoi ac ymgynghori ar reoliadau ac arweiniad. Yn ogystal, rhaid i'r Comisiwn fod yn barod i ysgwyddo ei rôl newydd.

H7. Y Tribiwnlys Elusennau

Yn gryno

Ar hyn o bryd, yr unig ddewis sydd gan elusennau sydd am apelio yn erbyn penderfyniadau cyfreithiol y Comisiwn yw mynd i'r Uchel Lys. Gall hyn fod yn waharddol o gostus ac yn gymhleth, yn arbennig i elusennau bychain. Bydd y Ddeddf yn sefydlu Tribiwnlys Elusennau fel lefel gyntaf apêl, a fydd yn rhatach, yn hwylusach ac yn llai ffurfiol. Bydd hyn yn galluogi elusennau bychain i gael ffordd hwylus o ymdrin â chwynion. Bydd mynediad i'r Uchel Lys yn dal yn bosibl wrth apelio yn erbyn penderfyniad y Tribiwnlys Elusennau.

Rhagor o fanylion

Cwmpas y Tribiwnlys: Bydd y Tribiwnlys yn gwrando ar geisiadau i adolygu rhai materion a fyddai cyn hyn wedi bod yn destun i'r broses adolygu farnwrol, a bydd yn gwrando ar apeliadau yn erbyn penderfyniadau cyfreithiol y Comisiwn, a fyddai cyn hyn wedi bod yn destun apêl i'r Uchel Lys. Bydd yn gallu ystyried penderfyniadau eraill a wnaeth y Comisiwn, a hefyd rai penderfyniadau a ddewisodd beidio â'u gwneud. Os bydd elusen yn anhapus am benderfyniad mae'r Comisiwn wedi ei wneud, dylai'n gyntaf drafod hynny gyda'r Comisiwn, a fydd yn cynnal adolygiad mewnol o'r penderfyniad. Os, ar ôl y broses hon, nad yw'r elusen yn hapus, bydd yn gallu apelio at y Tribiwnlys. Gall achosion gael eu dwyn yn erbyn y Comisiwn gan ymddiriedolwyr elusen neu bartïon eraill yr effeithir arnynt gan y penderfyniad hwn, yn ogystal â'r Twrnai Cyffredinol. Y Comisiwn fydd yr atebydd.

Gall y Tribiwnlys ystyried materion a gyfeirir ato gan y Twrnai Cyffredinol, neu gyda chaniatâd y Twrnai Cyffredinol, gan

y Comisiwn. Yn gyffredinol cwestiynau am weithredu neu gymhwyso maes cymhleth o'r gyfraith elusennau fyddai'r rhain. Bydd gan y Twrnai Cyffredinol yr hawl hefyd i ymyrryd mewn achos o flaen y Tribiwnlys, pan nad yw ef/hi eisoes yn rhan ohono. Gellir defnyddio'r pŵer hwn mewn achosion cymhleth a gall helpu i leddfu rhai o'r costau cyfreithiol i'r parti sy'n apelio.

Gwaith y Tribiwnlys: Swyddogaeth y Tribiwnlys fydd gwneud penderfyniadau am gyfreithlondeb gweithredoedd y Comisiwn wrth arfer ei bwerau statudol i reoleiddio elusennau. Bydd gan y Tribiwnlys bwerau amrywiol y gall eu defnyddio os yw'n canfod bod y Comisiwn wedi ymddwyn mewn ffordd anghyfreithlon. Er enghraifft, gall benderfynu diddymu penderfyniad os yw'n darganfod nad yw'r Comisiwn wedi dilyn y broses gywir, a gosod ei benderfyniad ei hun yn ei le. Gall y Tribiwnlys hefyd gyfarwyddo'r Comisiwn i wneud y penderfyniad eto, gan ddilyn y broses gywir. Wrth ystyried apeliadau, bydd rhaid i'r Tribiwnlys ystyried y mater ac edrych ar unrhyw dystiolaeth ychwanegol a allai fod wedi dod i'r amlwg.

Costau ac iawndal: Bydd y Tribiwnlys yn gallu diddymu penderfyniadau'r Comisiwn a dyfarnu costau dan rai amgylchiadau. Ni fydd, fodd bynnag, yn gallu dyfarnu iawndal.

Rheolau: Bydd yr Arglwydd Ganghellor yn gwneud rheolau a fydd yn rhoi mwy o fanylion am arfer a'r gweithdrefnau sydd i'w dilyn mewn achosion gerbron y Tribiwnlys.

Apeliadau i'r Uchel Lys: Os bydd elusen yn cymryd rhan mewn achosion cyfreithiol sy'n cael eu gwrando gan y Tribiwnlys, gall apelio yn erbyn penderfyniad y Tribiwnlys at yr Uchel Lys. Rhaid iddi'n gyntaf fod wedi cael caniatâd y Tribiwnlys neu, os yw wedi'i wrthod gan y Tribiwnlys, gan yr Uchel Lys. Yn gyffredinol gall ddwyn apêl o'r fath dim ond ar y sail bod y Tribiwnlys wedi gwneud camgymeriad o safbwynt y gyfraith (er enghraifft yn y ffordd y mae wedi dehongli'r gyfraith) ac nid oherwydd ei bod wedi gwneud camgymeriadau o ran y ffeithiau. Felly ni fydd fel arfer yn briodol cyflwyno tystiolaeth newydd i'r Uchel Lys.

Ymddygiad a gwasanaeth y Tribiwnlys: Ni fydd y Tribiwnlys yn ystyried cwynion am ymddygiad a gwasanaeth cyffredinol y Comisiwn, a fydd yn parhau i gael eu trin drwy'r weithdrefn gwyno bresennol. Mae hyn yn galluogi apêl i adolygwr cwynion annibynnol (cam olaf gweithdrefn gwyno'r Comisiwn).

Bydd y darpariaethau yn dod i rym yn gynnar yn 2008.

I. Ynghylch y Comisiwn

Ers i'r Ddeddf Elusennau flaenorol gael ei phasio ym 1992, mae'r Comisiwn wedi datblygu ei rôl fel rheoleiddiwr effeithiol, modern. Mae'r Ddeddf yn ategu hyn drwy sefydlu fframwaith cyfansoddiadol a adnewyddwyd sy'n egluro ei amcanion a sut y dylai weithredu. Caiff y Comisiwn ei arwain gan fwrdd mwy o faint, mwy amrywiol a fydd yn adlewyrchu'r sector y mae'n gweithio gydag ef yn well.

I1. Rôl y Comisiwn

Yn gryno

Mae'r Ddeddf yn diffinio amcanion a swyddogaethau'r Comisiwn, ac yn rhoi dyletswyddau cyffredinol iddo sydd i fod i'w arwain wrth iddo gyflawni ei ddyletswyddau.

Rhagor o fanylion

Yr amcanion: Nodir y pum amcan isod:

1. **Yr amcan hyder cyhoeddus:** Cynyddu ymddiriedaeth a hyder cyhoeddus mewn elusennau.
2. **Yr amcan budd cyhoeddus:** Hyrwyddo ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o weithredu'r gofyniad budd cyhoeddus.
3. **Yr amcan cydsynio:** Annog ymddiriedolwyr elusennau i gydymffurfio â'u gofynion cyfreithiol wrth reoli gweinyddiaeth eu helusennau.
4. **Yr amcan adnoddau elusennol:** Hyrwyddo defnydd effeithiol ar adnoddau elusennol.
5. **Yr amcan atebolrwydd:** Gwneud elusennau'n fwy atebol i gyfranwyr, buddiolwyr a'r cyhoedd.

Y swyddogaethau cyffredinol: Bydd y Comisiwn yn:

- penderfynu a yw sefydliadau yn elusennau ai peidio;
- annog a hwyluso gweinyddiaeth well o elusennau;
- nodi ac ymchwilio pan fydd elusennau yn cael eu cam-reoli neu eu cam-ddefnyddio a gweithredu i unioni hyn neu i amddiffyn eiddo elusennol;
- cyflawni ei swyddogaeth newydd wrth roi tystysgrifau casgliadau cyhoeddus;
- cynnal cofrestr o elusennau sy'n gywir ac yn gyfoes, a defnyddio hon a gwybodaeth arall i gefnogi ei waith a helpu i gyflawni ei amcanion; a
- rhoi gwybodaeth a chyngor neu wneud cynigion i Weinidogion ar faterion sy'n ymwneud â'i amcanion a'i swyddogaethau.

Y dyletswyddau: Wrth weithio rhaid i'r Comisiwn gydymffurfio â rhai dyletswyddau penodol, fel a ganlyn:

- Rhaid i'r Comisiwn, cyhyd â'i fod yn ymarferol, ymddwyn mewn ffordd sy'n gydnaws ag:
  - ei amcanion ac sy'n briodol ar gyfer cyflawni'r amcanion hynny; ac
  - annog cyfrannu at elusennau a chyfranogiad gwirfoddol mewn gwaith elusennol.
- Rhaid i'r Comisiwn, mewn achosion priodol, ystyried yr angen i elusennau allu arloesi neu gefnogi arloesedd sy'n cael effaith ar elusennau yn gyffredinol.
- Rhaid i'r Comisiwn ystyried yr arfer rheoleiddio gorau. Mae hyn yn cynnwys gweithredu'r egwyddorion y dylai gweithgareddau rheoleiddio fod yn gymesur, yn atebol, yn gyson ac yn dryloyw, ac wedi'u targedu at achosion lle bo angen gweithredu yn unig.
- Fel sefydliad, rhaid i'r Comisiwn ystyried egwyddorion gweinyddiaeth gorfforaethol dda a'r angen i ddefnyddio ei adnoddau yn y ffordd fwyaf effeithlon, effeithiol, a darbodus.

Daeth y prif ddarpariaethau i rym ar 27 Chwefror 2007.

I2. Statws a strwythur y Comisiwn

Yn gryno

Mae'r Comisiwn wedi datblygu'n corff corfforedig newydd, gyda bwrdd ehangach. Mae yna ddatganiad clir o'i annibyniaeth ar Weinidogion.

Rhagor o fanylion

Bwrdd ehangach a mwy amrywiol: Mae'r Ddeddf yn caniatáu i'r Comisiwn recriwtio hyd at bedwar aelod anweithredol newydd o'r bwrdd. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol hefyd bod gan y bwrdd cyfan ystod eang o wybodaeth a phrofiad o weithredu a rheoleiddio elusennau ac o'r fframwaith cyfreithiol y mae'n gweithio ynddo. Rhaid bod gan o leiaf un aelod o'r bwrdd wybodaeth arbenigol o amodau Cymru. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod y bwrdd yn adlewyrchu amrywiaeth y sector elusennol.

Llywodraethu agored: Er 2005 mae'r Comisiwn wedi cynnal, ar sail wirfoddol, cyfarfod cyffredinol blynyddol (AGM) sy'n agored i'r cyhoedd. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud hi'n ofyniad statudol bod rhaid iddo gynnal AGM cyhoeddus pan drafodir ei adroddiad blynyddol i'r Senedd.

Atebolrwydd i'r Senedd: Rhaid i'r Comisiwn adrodd yn flynyddol i'r Senedd ar ei waith, ei gynnydd wrth wireddu amcanion, perfformiad ei ddyletswyddau cyffredinol a rheoli ei faterion.

Amddiffynfa: Mae annibyniaeth y Comisiwn oddi ar Weinidogion ac adrannau llywodraeth yn elfen bwysig sy'n cyfrannu at hyder cyhoeddus mewn elusennau. Rydym yn ymwybodol bod elusennau eu hunain hefyd yn rhoi gwerth mawr ar hyn. Mae'r Ddeddf yn amddiffyn annibyniaeth y Comisiwn fel adran o'r llywodraeth heb weinidog.

Daeth y prif ddarpariaethau i rym ar 27 Chwefror 2007.

J. Geirfa

Mae'r adran hon yn esbonio ystyr rhai o'r termau technegol a ddefnyddir yn y llyfryn hwn.

Ystyr **archwiliwr** yw rhywun sy'n archwiliwr cofrestredig ac yn cael ei reoleiddio gan gorff goruchwylio cydnabyddedig. Mae Adran 42(2) Deddf Cwmnïau 1985 yn ymdrin â hyn yn fanylach.

Corff corfforaethol yw'r term cyfreithiol am gorfforaeth. Endid cyfreithiol yw corfforaeth sydd, er ei fod yn cael ei ffurfio gan unigolion, yn bodoli'n gyfan gwbl ar wahân iddynt.

Egwyddor gyfreithiol a sefydlwyd ers tro yw **cy-Près** sy'n berthnasol i amgylchiadau lle gwnaed rhodd elusennol, neu lle sefydlwyd elusen, at ddibenion nad ydynt bellach yn ymarferol. Rhaid i unrhyw newid mewn defnyddio'r rhodd neu ddibenion yr elusen fod mor 'agos' at y dibenion gwreiddiol â phosibl. (Ffrangeg Normanaidd am 'yn agos i' yw Cy-près).

Ystyr **elusen wedi'i heithrio** yw elusen nad oes angen iddi gofrestru â'r Comisiwn naill ai oherwydd rheoliadau a wnaed gan Weinidogion neu gan Orchymyn a wnaed gan y Comisiwn Elusennau. O dan y Ddeddf, bydd yn rhaid i'r elusennau mwy ymhlith yr elusennau wedi'u heithrio (sydd ag incwm blynyddol dros £100,000) gofrestru gyda'r Comisiwn pan weithredir y rhan berthnasol o'r Ddeddf.

Ystyr **elusen wedi'i hesgusodi** yw elusen sydd wedi'i chynnwys yn Atodlen 2 Deddf Elusennau 1993 ac unrhyw elusennau eraill y datganwyd eu bod wedi'u hesgusodi gan ddeddfwriaeth. Maent gan fwyaf yn grwpiau o sefydliadau fel prifysgolion, amgueddfeydd a chymdeithasau tai. Nes y daw rhannau perthnasol Deddf 2006 i rym, ni chaniateir i elusennau wedi'u hesgusodi gofrestru â'r Comisiwn. Bydd gofynion newydd ar gyfer cofrestru, ac fe'u hamlinellir yn fanylach yn y llyfryn hwn (gweler H1), sy'n golygu na fydd rhai o'r rhai mwy yn eu plith yn cael eu hesgusodi bellach. Bydd p'un a yw hyn yn berthnasol i elusen a oedd wedi'i hesgusodi o'r blaen yn dibynnu'n gyntaf a nodwyd prif reoleiddiwr ar gyfer yr elusen ac, yn ail, ar lefel ei hincwm blynyddol.

Ystyr **dogfen lywodraethu** yw dogfen gyfreithiol sy'n amlinellu dibenion yr elusen, ac, fel arfer sut y bydd yn cael ei gweinyddu. Gallai fod yn ddogfen ymddiriedolaeth, yn gyfansoddiad, yn Femorandwm ac Erthyglau Cymdeithasiad, yn drosglwyddeb, yn ewyllys, yn Siarter Frenhinol, yn Gynllun y Comisiwn neu'n ddogfen ffurfiol arall.

Ystyr **elusen gorfforedig** yw elusen sydd hefyd yn gwmni neu sydd â statws cyfreithiol tebyg fel endid corfforaethol yn y gyfraith.

Ystyr **archwiliwr annibynnol** yw rhywun sy'n annibynnol ar yr ymddiriedolwyr y credir yn rhesymol bod ganddo/ganddi'r gallu angenrheidiol a'r profiad ymarferol i wneud archwiliad cymwys a diduedd o gyfrifon yr elusen. Mae archwiliad annibynnol yn ffurf lai beichus o archwilio nag archwiliad, ond dylai elusennau gyfeirio at Ddeddf 1993 am ragor o arweiniad ac, os bydd ganddynt amheuaeth, dylent ofyn am gyngor cyfrifydd.

Ystyr **ymchwiliad** yw ymchwiliad i elusen neu elusennau a agorir gan y Comisiwn Elusennau o dan Adran 8 Ddeddf 1993.

Ystyr **tir** yw tir yng Nghymru neu Loegr gydag adeiladau neu hebddynt, ac yn cynnwys unrhyw ystâd neu fuddiant mewn tir, fel prydles neu hawl dramwy.

Mae **gwrthrychau** mewn dogfen lywodraethu elusen yn disgrifio'r dibenion elusennol y bydd yr elusen yn eu cyflawni.

Mae **gwaddol parhaol** yn golygu eiddo (tir, adeiladau, buddsoddiadau neu arian parod) nad yw'r ymddiriedolwyr yn cael ei wario fel be bai'n incwm.

Ystyr **darpariaeth** yw cymal mewn offeryn cyfreithiol sy'n darparu ar gyfer mater penodol.

Ystyr **diben** yw'r rheswm pennaf mae'r elusen yn bodoli. Dyma beth y mae'r elusen yn ceisio ei gyflawni drwy ei gwaith. Caiff dibenion elusen fel arfer eu disgrifio yn ei dogfen lywodraethu yn y 'cymal amcanion'. I fod yn elusen, rhaid bod gan sefydliad ddibenion, a phob un ohonynt yn ddibenion elusennol.

Ystyr **cynllun** yw dogfen gyfreithiol sy'n diwygio, yn disodli neu'n ehangu ymddiriedolaethau elusen. Gall y Comisiwn neu'r llysoedd wneud Cynllun.

Ystyr **ymddiriedolwr** yw ymddiriedolwr elusen. Ymddiriedolwyr elusen yw'r bobl sy'n gyfrifol am reoli a gweinyddu'r elusen yn gyffredinol. Yn nogfen lywodraethu'r elusen, efallai y cânt eu galw'n ymddiriedolwyr, yn ymddiriedolwyr rheoli, yn aelodau pwyllgor, yn llywodraethwyr neu'n gyfarwyddwyr, neu efallai y cyfeirir atynt wrth ryw deitl arall.

Ystyr **elusen anghorfforedig** yw naill ai ymddiriedolaeth neu gymdeithas. Mae 'anghorfforedig' yn golygu nad cwmnïau yw sefydliadau o'r fath: nid oes ganddynt hunaniaeth gyfreithiol ar wahân ac felly ni chânt ffurfio contractau yn eu henw eu hun. Byddai ymddiriedolwyr unigol yr elusen yn cael eu henwi mewn contract, a hwy a fyddai'n gyfrifol am fodloni ei delerau a'i atebolrwydd. Defnyddir y term 'ymgorffori' yn aml i ddisgrifio'r broses o sefydlu cwmni elusennol gan ymddiriedolwyr i gymryd drosodd weithrediadau anghorfforedig yr elusen. Mae manteision ac anfanteision amrywiol i ymgorffori, a dylai ymddiriedolwyr ofyn am gyngor cyfreithiol neu gyfrifyddol, neu'r naill a'r llall, cyn mynd ymlaen.

Ystyr **datganiad breinio** yw dogfen sy'n trosglwyddo'r teitl i dir ac eiddo arall o un elusen (neu gyfres o ymddiriedolwyr elusen) i elusen arall (neu gyfres o ymddiriedolwyr elusen).

Atodiad

Mae'r adran hon yn amlygu ffynonellau gwybodaeth ddefnyddiol bellach.

Mae Deddf Elusennau 2006, gyda'r nodiadau esboniadol sydd ynghlwm wrthi, ar gael ar wefan Swyddfa Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus yn www.opsi.gov.uk. Mae Deddf Elusennau 1992 a Deddf Elusennau 1993 hefyd ar gael ar y wefan hon. Gellir prynu copïau caled o'r Llyfrfa.

Fe'ch anogir i ddefnyddio gwefan y Comisiwn yn www.charitycommission.gov.uk (ffôn: 0845 300 0218) i gael y newyddion diweddaraf am ddatblygiadau, a chael gwybod mwy am rôl y Comisiwn fel rheoleiddiwr elusennau yng Nghymru a Lloegr. Cyhoeddir arweiniad perthnasol am y Ddeddf yno.

Mae cynllun gweithredu Swyddfa'r Trydydd Sector, sy'n nodi pryd y bydd darpariaethau amrywiol y Ddeddf yn dod i rym, ar gael yn www.cabinetoffice.gov.uk/thirdsector. Mae gwybodaeth arall am gyfraith elusennau a'r Ddeddf ar yr un wefan.

Ceir gwybodaeth am y Mesur Elusennau ar wefan Senedd y DU yn www.publications.parliament.uk.

Mae sawl ffynhonnell arall yn rhoi arweiniad pellach ar faterion yn ymwneud â gweithredu'r Ddeddf. Mae rhai ffynonellau a allai helpu ymddiriedolwyr wedi'u rhestru yma.

Cymdeithas Prif Weithredwyr Sefydliadau Gwirfoddol (ACEVO)
www.acevo.org.uk
Ffôn: 0845 345 8481
ACEVO yw'r corff proffesiynol ar gyfer prif weithredwyr y trydydd sector.

Grŵp Cyfarwyddwyr Cyllid Elusennau (CFDG)
www.cfdg.org.uk
Dyma'r sefydliad aelodaeth i'r rheiny sy'n gweithio mewn elusennau sy'n gyfrifol am reolaeth ariannol.

Cymdeithas Cyfraith Elusennau
www.charitylawassociation.org.uk
Sefydlwyd y Gymdeithas Cyfraith Elusennau gyda'r bwriad o alluogi'r rheiny sy'n cynghori neu'n defnyddio'r gyfraith elusennau i gyfarfod, cyfnewid syniadau a gwybodaeth, a defnyddio eu profiad a'u harbenigedd er lles y sector elusennau.

Rhwydweithiau Ymddiriedolwyr Elusennau (CTN)
www.trusteenet.org.uk
Ffôn: 01483 230280
Prif amcanion Rhwydweithiau Ymddiriedolwyr Elusennau yw hyrwyddo effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd elusennau trwy wella eu llywodraethu trwy rwydweithiau ymddiriedolwyr a thrwy hyrwyddo addysg ymddiriedolwyr yn egwyddorion ac arfer ymddiriedolaeth.

Tŷ'r Cwmnïau
www.companieshouse.gov.uk
Ffôn: 0870 33 33 636
Mae Tŷ'r Cwmnïau yn ymgorffori ac yn diddymu cwmnïau cyfyngedig, ac yn storio gwybodaeth a gyflwynir o dan y Deddfau Cwmnïau.

Grŵp Cyfreithwyr Elusennau Mewnol
www.cigroup.org.uk/charity.asp
Caiff y Grŵp Cyfreithwyr Elusennau Mewnol ei gynnal gan ac ar gyfer cyfreithwyr mewnol mewn elusennau, gan alluogi ei aelodau i gyfarfod, rhwydweithio, a chyfnewid syniadau, profiadau, adnoddau ac arferion gorau.

Y Sefydliad Codi Arian
www.institute-of-fundraising.org.uk
Dyma'r corff proffesiynol sy'n cynrychioli ac yn cefnogi pobl sy'n codi arian.

Llyfrfa Ei Mawrhydi (HMSO) (bellach yn rhan o Swyddfa Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus)
www.opsi.gov.uk

Cyngor Cenedlaethol Sefydliadau Gwirfoddol (NCVO)
www.ncvo-vol.org.uk, www.askNCVO.org.uk
Desg gymorth rhadffôn: 0800 2 798 798,
ffôn testun 0800 01 88 111
NCVO yw'r corff ymbarél ar gyfer sefydliadau gwirfoddol yn Lloegr. Mae ei wefan yn cynnwys porth ar-lein i wybodaeth am y sector gwirfoddol. Ffynhonnell arweiniad ar gyfer ymddiriedolwyr ar ystod eang o faterion ymarferol a chyfreithiol yw askNCVO.

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Gogledd Iwerddon (NICVA)
www.nicva.org
NICVA yw'r corff ymbarél ar gyfer grwpiau gwirfoddol, cymunedol ac elusennol yng Ngogledd Iwerddon. Mae'n rhoi gwybodaeth, cyngor a hyfforddiant i dros 1,000 o aelodau cyswllt ar ystod eang o faterion, o ymgynghoriaeth reoli a chyllid i ddatblygu polisi a lobïo.

Cyngor Sefydliadau Gwirfoddol Yr Alban (SCVO)
www.scvo.org.uk
SCVO yw'r corff ymbarél ar gyfer sefydliadau gwirfoddol yn Yr Alban.

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC)
www.wcva.org.uk
Mae gwefan ryngweithiol CGGC yn cynnig gwybodaeth am y sector gwirfoddol yng Nghymru ac ar ei gyfer.

Bydd cwmnïau cyfreithiol a chyhoeddwyr yn llunio canllawiau i'r Ddeddf maes o law. Dylech wirio'r wasg fasnach i gael rhagor o wybodaeth am y rhain.

Cydnabyddiaethau

Mae Swyddfa'r Trydydd Sector a'r Comisiwn Elusennau yn ddiolchgar i James Tickell a Radojka Milijevic o Campbell Tickell am eu cyfraniad at lunio'r arweiniad hwn.

Office of the Third Sector
Cabinet Office
35 Great Smith Street
London SW1P 3BQ

Ffôn: 020 7276 6400
Ffacs: 020 7276 6333

Charity Commission
PO Box 1227
Liverpool L69 3UG

Ffôn: 0845 300 0218
Cyfeiriad gwefan: www.charitycommission.gov.uk

Cyfeiriad gwefan: www.cabinetoffice.gov.uk/thirdsector

Dyddiad cyhoeddi: Mai 2007

I archebu copi o'r arweiniad hwn, ffoniwch 0845 015 0010 a dyfynnu URN 07/Z2/W a theitl y cyhoeddiad. Sylwch fod y cyflenwad yn gyfyngedig.

ⓗ Hawlfraint y Goron 2007

Gellir atgynhyrchu'r testun yn y ddogfen hon yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng heb ganiatâd penodol. Mae hyn ar yr amod na chaiff y deunydd ei ddefnyddio mewn modd difrïol neu mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod ffynhonnell y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid cynnwys teitl y ddogfen wrth ei hatgynhyrchu yn rhan o gyhoeddiad neu wasanaeth arall.

Mae'r deunydd a ddefnyddiwyd yn y cyhoeddiad hwn o 75% o wastraff ôl-ddefnyddiwr a 25% o ffibr pur.

Cyf: 282727/0807

Paratowyd ar gyfer Swyddfa'r Cabinet a'r Comisiwn Elusennau gan COI